

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil Gymdeithasol

Social Research

Number: 07/2012



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd: Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf

Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd
ADRODDIAD Y FLWYDDYN GYNTAF



Research Policy Analysis
Ymchwil Polisi Dadansoddi

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Siân Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Cynllunio Strategol, Cyllido a Pherfformiad

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful

Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Rhif Ffôn: 0300 0628126

E-bost: sj&lgresearchandinformationunit@wales.gsi.gov.uk

<http://www.cymru.gov.uk/ymchwil>

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012

ISBN: 978 0 7504 6973 9

© Hawlfraint y Goron 2012

Cynnwys

1. CYFLWYNIAD.....	2
1.1 Cefndir	2
1.2 Nod yr Adolygiad.....	2
1.3 Dull	3
1.4 Strwythur yr Adroddiad hwn	4
2. ADOLYGIAD POLISI.....	5
2.1 Cyflwyniad	5
2.2 Ystyriaethau allweddol o ran y Prosiect Undebau Credyd	21
3. CEFNDIR Y PROSIECT	23
3.1 Y Prosiect Undebau Credyd: Cam Un.....	23
3.2 Y Prosiect Undebau Credyd: Cam Dau.....	26
4. CANFYDDIADAU	30
4.1 Cyflwyniad	30
4.2 Rhesymeg y Prosiect.....	30
4.3 Targedau a Pherfformiad y Prosiect.....	37
4.4 Trefniadau Cyflawni'r Prosiect.....	48
4.5 Y Berthynas rhwng Rhanddeiliaid Allweddol	56
4.6 Y Gwahaniaeth a Wnaed i Undebau Credyd hyd yn hyn.....	59
4.7 Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd	63
4.8 Syniadau Undebau Credyd am y Dyfodol	66
5 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION	68
Atodiad 1: Rhestr o'r Rhai a Gyfwelwyd.....	72

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

Comisiynwyd Old Bell 3 Ltd. gan Lywodraeth Cymru i gynnal Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Prosiect Undebau Credyd).

Wedi ei ariannu trwy ffrwd Datblygu Economaidd Cymunedol y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd, mae'r Prosiect Undebau Credyd yn awr yn ail gam ei gyflwyno, ar ôl cael ei dreialu am gyfnod o flwyddyn rhwng Ebrill 2009 a Mehefin 2010. Cyflawnwyd y cynllun peilot cam un ar ran Llywodraeth Cymru gan Ganolfan Cydweithredol Cymru tra mai The Social Investment Business (TSIB) sydd wedi cael eu penodi i gyflwyno cam dau.

1.2 Nod yr Adolygiad

Nod y gwerthusiad hwn yw 'asesu effaith ac effeithlonrwydd y prosiect mynediad at wasanaethau ariannol trwy undebau credyd a'r graddau y mae wedi cyrraedd ei nodau a'i amcanion.'¹

Mae'r gwerthusiad yn cynnwys tri cham penodol: gwerthusiad ffurfiannol (cam un); gwerthusiad interim (ail gam) a gwerthusiad cyfunol (trydydd gam).

Amcanion y cam cyntaf hwn o'r gwaith oedd adolygu:

- y rhesymeg gychwynnol a pharhaus ar gyfer y prosiect;
- addasrwydd y prosiect a'r strwythur cyflawni;
- y berthynas rhwng y chwaraewyr amrywiol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, darparwyr dan contract, buddiolwyr y prosiect a rhanddeiliaid eraill);
- addasrwydd targedau'r prosiect yng nghyswllt nodau ac amcanion y prosiect;

¹ Manyleb Gwahoddiad i Dendro, Tudalen 4

- data monitro meintiol cam un i asesu'r graddau y mae nodau ac amcanion cam un wedi cael eu cyrraedd;
- enghreifftiau o arfer da neu fel arall o gam un y gellid eu defnyddio yng ngham dau.

Roedd manyleb y gwerthusiad hefyd yn amlinellu'r angen i gyflwyno argymhellion ar unrhyw newidiadau a all fod yn ofynnol i strwythurau presennol y prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf yng ngham dau.

1.3 Dull

Mae'r adroddiad cychwynnol hwn ar sail rhaglen waith a weithredwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2011 oedd yn cynnwys:

- Mynd i gyfarfod cychwynnol gyda'r Grŵp Llywio Gwerthuso i gytuno ar y rhaglen waith ar gyfer gwerthuso a pharatoi adroddiad ar gychwyn y prosiect;
- Cynnal adolygiad o lenyddiaeth ar bolisi a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a Chymru o ran y sector undebau credyd;
- Adolygu dogfennau allweddol yn ymwneud â chynllunio a model cyflawni'r Prosiect Undebau Credyd;
- Adolygu data monitro ac allbwn y prosiect cam cyntaf a'r ail gam gyda golwg ar asesu'r graddau y cyrhaeddwyd targedau cam un a'r graddau y mae targedau cam dau yn cael eu cyrraedd;
- Adolygu data ariannol a pherfformiad yn ymwneud ag undebau credyd yng Nghymru;
- Datblygu canllawiau pynciol wedi eu strwythuro yn rhannol a chynnal ymgynghoriadau gyda chyfanswm o 16 o randdeiliaid, gan gynnwys y ddau ddarparwr ar gontract (TSIB a Chanolfan Cydweithredol Cymru);
- Datblygu a defnyddio arolwg ar y we i reolwyr yr 16 undeb credyd a gefnogir gan y prosiect. Derbyniwyd deg ymateb, gan gynrychioli cyfradd ymateb o 62.5%.

1.4 Strwythur yr Adroddiad hwn

Yng ngweddill yr adroddiad hwn, byddwn yn gyntaf yn trafod y cyd-destun polisi ar gyfer y sector undebau credyd ar lefel y Deyrnas Unedig a Chymru **(Adran 2)** cyn rhoi trosolwg o gam un a cham dau'r prosiect **(Adran 3)**. Rydym wedyn yn cyflwyno canfyddiadau ein gwaith maes **(Adran 4)** sy'n ystyried ein dadansoddiad o ddata perfformiad y prosiect, canfyddiadau cyfweiliadau ymgynghori a'r arolwg ar y we. Yn olaf rydym yn cyflwyno ein casgliadau cychwynnol a'n hargymhellion ffurfiannol **(Adran 5)**.

2. ADOLYGIAD POLISI

2.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon, rydym yn adolygu nifer o'r dogfennau polisi a strategaeth allweddol sydd yn berthnasol i'r prosiect Undebau Credyd. Mae ein prif ffocws yn ymwneud â dogfennau polisi a strategaeth yng Nghymru ar ôl datganoli, er ein bod yn ystyried hefyd y cyd-destun yn y Deyrnas Unedig yng nghyswllt diwygiadau cyfreithiol sy'n effeithio ar undebau credyd ar draws Prydain Fawr a gwerthusiad o Gronfa Dwf yr Adran Gwaith a Phensiynau.

2.1.1 *Cymru'n Un*

Roedd Cymru'n Un², rhaglen llywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru gynt (2007-2011), yn cydnabod swyddogaeth bwysig yr undebau credyd o ran cyfiawnder cymdeithasol a datblygu economaidd. Roedd yn nodi'r ymrwymiad ar y lefel uchaf i 'sefydlu undebau credyd – fel dull o fenter gymdeithasol – ym mhob rhan o Gymru' ac 'mewn cefndir o gymorth cyffredinol', i 'sicrhau bod undeb credyd ar gael i bob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn 2011'. Yn ychwanegol, fe roddodd Cymru'n Un hefyd ymrwymiad i 'ddatblygu ymhellach allu undebau credyd Cymru i gymryd adneuon o gyfrifon Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant'³.

2.1.2 *Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru*

Yn dilyn Cymru'n Un, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru yn 2009⁴ (a oedd ynddo ei hun yn adeiladu ar Strategaeth Mentrau Cymdeithasol gyntaf Cymru, 2005). Roedd hwn yn pwysleisio'r angen i 'gynyddu nifer, graddfa ac effaith mentrau cymdeithasol yng Nghymru'⁵. Yn y cyd-destun hwn, roedd y Cynllun yn amlinellu 'y gall mentrau cymdeithasol a

² Cymru'n Un, Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru. Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol. 27^{ain} Mehefin 2007.

³ Ibid, Tud 29.

⁴ Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2009.

⁵ Ibid, Tud 5.

gynlluniwyd yn ofalus, fel undebau credyd, helpu pobl i ymdopi ar gyllidebau eithriadol o dynn⁶.

Roedd y cynllun gweithredu hefyd yn nodi bod 'undebau credyd yn awr yn cael eu cydnabod yn eang fel cyrff sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at economïau lleol, trwy gyfrannu at gynhwysiant ariannol a gallu ariannol'. Roedd hefyd yn cydnabod bod gan undebau credyd 'y fantais ychwanegol o sicrhau bod yr arian y maent yn ei ddenu a'i fenthycu yn cael ei gadw a'i ailgylchu yn lleol, yn hytrach na gwneud elw i gyfranddalwyr allanol y cwmni' a bod 'llawer o undebau credyd yng Nghymru yn awyddus iawn i gefnogi busnesau lleol a mentrau cymdeithasol bychain ac y byddant yn benthycu i aelodau unigol ar gyfer dibenion busnes'⁷.

2.1.3 Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru

Mae Pawb yn Cyfri yw Strategaeth Cynhwysiant Ariannol gyntaf Cymru⁸. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, ac roedd yn nodi gweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer cynhwysiant ariannol yng Nghymru fel:

'System ariannol sy'n gweithredu'n dda, yn hygyrch a dealladwy, i bawb sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sydd ar gyrion cymdeithas. Dylai'r system ariannol gynhwysol hon gynnig amrywiaeth eang o gynnyrch a gwasanaethau ariannol sy'n cael eu cefnogi gan ddarparu gwasanaethau addysg a chynghori ariannol hygyrch ac am ddim i'w defnyddio'⁹.

Dan y weledigaeth hon, mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn nodi cyfres o nodau â'r bwriad o:

- 'Hwyluso ymateb holistaidd a chydlynol gan asiantaethau ar y cyd i gynhwysiant ariannol;
- Ymdrin â'r hyn sy'n achosi allgau ariannol a lleihau allgau ariannol yng Nghymru;

⁶ Ibid, Tud 18.

⁷ Ibid, Tud 26.

⁸ Mae Pawb yn Cyfri. Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gorffennaf 2009.

⁹ Ibid, Tud 5.

- Gwella'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cefnogi i bawb sydd yn cael anhawster o ganlyniad i gael eu hallgau yn ariannol;
- Ymateb i'r sialensiau ychwanegol i gynhwysiant ariannol sy'n cael eu creu gan yr anawsterau economaidd presennol'¹⁰.

Mae'r strategaeth yn diffinio cynhwysiant ariannol fel 'pawb yn cael mynediad at ystod briodol o gynnyrch a gwasanaethau ariannol, sy'n caniatáu iddynt reoli eu harian yn effeithiol, beth bynnag fo lefel eu hincwm, statws cymdeithasol neu allu'¹¹.

O ran y mudiad undebau credyd yng Nghymru, mae'r strategaeth yn amcangyfrif bod '29 undeb credyd ar hyn o bryd, gyda thua 48,000 o aelodau a mwy na £20 miliwn o asedau ar y cyd yng Nghymru' a bod 'aelodaeth o undebau credyd yng Nghymru [wedi tyfu] o tua 10,000 ar ddiwedd [y flwyddyn] 2000 i bron i 48,000 erbyn Mawrth 2009'¹².

Mae'r strategaeth hon yn gwneud y pwynt diddorol a phwysig, er bod 'undebau credyd ddim, ac na ddylent fod, yn cael eu sefydlu ar gyfer y diben penodol o ddarparu gwasanaethau ariannol i'r rhai sy'n cael eu hallgau yn ariannol'; y gallant 'dan yr amgylchiadau cywir, gael rôl allweddol i'w chwarae wrth ddarparu ystod holl gynhwysol o gynnyrch ariannol fforddiadwy'¹³.

Aiff ymlaen i ddadlau, trwy 'gynnig amrywiaeth o gynnych ariannol, mae undebau credyd mewn sefyllfa dda i gynnig gwasanaethau ariannol fforddiadwy i'r rhai sydd â'u hamgylchiadau ariannol yn llai sicr ac, felly, yn llai deniadol i'r sector gwasanaethau ariannol prif-ffrwd, sydd am wneud elw'¹⁴.

¹⁰ Ibid, Tud 6.

¹¹ Ibid, Tud 6.

¹² Ibid, Tud 25.

¹³ Ibid, Tud 25.

¹⁴ Ibid, Tud 25.

Dan hyn, mae'r strategaeth yn amlinellu cyfres o ddeg ffordd y gall undebau credyd helpu i hyrwyddo cynhwysedd ariannol. Cyflwynir y rhain yn Ffig. 1 isod¹⁵.

Ffig 1: Ffyrdd y gall undebau credyd helpu i hyrwyddo cynhwysiant ariannol.

- Darparu ystod o gynnyrch cynilo a benthyca sy'n diwallu anghenion ariannol yr holl aelodau, gan gynnwys y rhai sy'n cael anhawster i gael at wasanaethau ariannol prif-ffrwd.
- Gweithio gyda'r DWP¹⁶ i gyflawni ymrwymiad Cronfa Dwf 2 i ddarparu gwasanaeth benthyca yn y fan a'r lle i unigolion ar incwm isel.
- Annog diwylliant o gynilo a chynyddu asedau fel ffordd o gael sefydlogrwydd ariannol yn y tymor hirach gan gynnwys cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant a Chyfrifon Cynilo Unigol (ISAs).
- Gwella mynediad at wasanaethau undebau credyd trwy gynyddu oriau agor swyddfeydd, sefydlu mwy o fannau casglu allestyn a gweithredu rhwydweithiau casglu taliadau e.e. All Pay, Pay Point ac ati.
- Darparu gwasanaethau ychwanegol fel cynnyrch yswiriant isel eu costau gan gynnwys yswiriant cartref a theithio a gwasanaeth talu biliau i helpu aelodau gyda chynlluniau cyllidebu.
- Gweithio gyda sefydliadau lleol eraill fel gwasanaethau cynghori ariannol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, i roi mynediad at gyngor ariannol a gwasanaethau eraill i aelodau, fel cadw at gyllideb a chyfrifon talu biliau.
- Gweithio i ddatblygu clybiau cynilo mewn ysgolion cynradd.
- Gweithio gydag ysgolion i sicrhau mynediad at undeb credyd i bob disgybl ysgol uwchradd yng Nghymru.
- Ystyried uno a chyfleoedd ar gyfer rhannu gwasanaethau a chydweithio gydag undebau credyd eraill i sicrhau bod ardal ddaearyddol ehangach yn cael gwasanaeth a bod cysondeb yn y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu trwy Gymru.
- Ystyried cyfleoedd i hybu effeithlonrwydd ynni.

¹⁵ Ibid, Tud 25.

¹⁶ Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae'r strategaeth yn mynd yn ei blaen i ddadlau 'mae twf a chynaliadwyedd y mudiad undebau credyd yng Nghymru yn hanfodol i gyflawni'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol trwy:

- Estyn credyd fforddiadwy i'r rhai sy'n cael eu hallgau o'r gwasanaethau prif-ffrwd;
- Dysgu gwerth cynilo i bobl;
- Rhoi cyngor ar reoli arian a chyllidebu'¹⁷.

Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn ei gwneud yn glir bod llawer iawn o botensial i undebau credyd gynorthwyo i ymdrin ag allgau ariannol, 'mae arnynt angen cael eu cefnogi mewn ffyrdd fydd yn eu helpu i dyfu a dod yn hunan gynhaliol yn y pen draw'¹⁸.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r strategaeth yn cyfeirio yn uniongyrchol at y Prosiect Undebau Credyd trwy ddweud 'mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau cyllid gan WEFO ar gyfer prosiect i gefnogi datblygiad undebau credyd a chyflawni ymrwymadau Cymru'n Un yn yr Ardal Cydgyfeirio Ewropeaidd sy'n cynnwys 15 awdurdod lleol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian cyfatebol at y cyllid Cydgyfeirio ac yn ychwanegu adnoddau eraill i greu rhaglen gyllido Cymru gyfan gyda chyfanswm o £750,000 ym mlwyddyn un. Yn Ebrill 2009, gwahoddwyd yr undebau credyd i ymgeisio am gontractau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol i gyflawni gwasanaethau penodol'¹⁹.

Mae'r strategaeth yn disgrifio nod cyffredinol y cyllid fel 'cefnogi'r mudiad i ddod yn fwy cadarn yn fasnachol a'i helpu i ehangu a gwella'r modd y darperir gwasanaethau ariannol sy'n cael eu cynnig' a thrwy'r prosiect, y bydd undebau credyd yn cael eu cefnogi i 'amrywio...eu hystod o wasanaethau a chynnyrch' a fydd yn ei dro yn 'cynyddu eu haelodaeth bosibl a chyfrannu at eu sefydlogrwydd ariannol tymor hir'²⁰.

¹⁷ Ibid, Tud 41.

¹⁸ Ibid, Tud 25.

¹⁹ Ibid, Tud 42.

²⁰ Ibid, Tud 42.

Yn ychwanegol, mae'r strategaeth yn cyfeirio at 'gyllid o £350,000 [a fydd ar gael trwy Lywodraeth Cymru] i undebau credyd sydd am ddod yn ddarparwyr cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant i sicrhau bod undebau credyd yn 'medru rhoi gwasanaeth hygyrch a chystadleuol i gwsmeriaid y Gronfa, ac ar yr un pryd roi amgylchedd croesawus, sy'n arbennig o bwysig i'r rhai nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn ymdrin â'r sector bancio prif-ffrwd'²¹.

Gwelir bod gan undebau credyd rôl bwysig i'w chwarae hefyd yn y cyd-destun addysg ffurfiol ac mae'r strategaeth yn amlinellu 'bod undebau credyd yn medru ymgeisio am gontractau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol ar gyfer 2009-10 i gynyddu eu gallu i ymestyn y gwaith hwn' oedd hefyd yn cael ei gefnogi gan 'adnodd dysgu newydd i undebau credyd i'w ddefnyddio gyda disgyblion ysgol uwchradd...wedi ei gyllido gan Lywodraeth y Cynulliad a'i ddatblygu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru'²².

Pwynt arall allweddol a wneir gan y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yw bod dull cydweithredol, gan gwmpasu amrywiaeth o sefydliadau allweddol sy'n bartneriaid yng Nghymru, yn hanfodol i hybu cynhwysiant ariannol effeithiol. Yn wir, mae'r strategaeth yn tynnu sylw at undebau credyd fel un o'r sefydliadau allweddol hyn, ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, swyddfeydd post, banciau, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a llawer mwy.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r strategaeth yn cyfeirio at y ffaith bod 'gan awdurdodau lleol y potensial i chwarae rôl anferth wrth hybu cynhwysiant ariannol yng Nghymru' a bod 'y rhan fwyaf eisoes â rhai polisïau yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar allgau ariannol, fel cefnogi datblygiad undebau credyd lleol, gweithgaredd gwrth siarcod benthyciadau a darparu cyngor ar ddyledion a budd-daliadau lles'. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn dynodi bod

²¹ Ibid, Tud 42.

²² Ibid, Tud 43.

‘ddarparu’r gwasanaethau hyn yn amrywio trwy Gymru ac yn anghyson, sy’n golygu bod rhai ardaloedd yn cael mwy o fudd na’i gilydd’²³.

Mae’r strategaeth yn tynnu sylw penodol at y ffaith bod y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac undebau credyd yn hanfodol bwysig, ac yn awgrymu y gall awdurdodau lleol helpu trwy ‘gefnogi datblygiad a thwf gwasanaethau undebau credyd yn eu hardal’²⁴ a thrwy ‘gynnig y cyfle i weithwyr wneud taliadau undeb credyd trwy ddiidyniadau cyflogres’²⁵.

Mae’r strategaeth hefyd yn awgrymu y gall cymdeithasau tai helpu i hybu cynhwysiant ariannol trwy ‘weithio yn glos gydag undebau credyd lleol i annog tenantiaid i gynilo a chael mynediad at ffynhonnell credyd isel ei gost’²⁶ ac mewn modd tebyg i awdurdodau lleol, trwy annog eu gweithwyr i wneud taliadau undeb credyd trwy ddiidyniadau cyflogres’

Yng nghyd-destun banciau, mae’r strategaeth yn awgrymu y gallant hwythau gefnogi cynhwysiant ariannol trwy ‘ddarparu cefnogaeth, yn ariannol ac mewn da, i fenthycwyr trydydd sector fel undebau credyd yng Nghymru’²⁷. Yn ychwanegol, disgwylir i ddarparwyr cyngor weithio mewn partneriaeth â ‘sefydliadau lleol sydd â chylch gorchwyl cynhwysiant ariannol, fel undebau credyd, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, i ddynodi cleientiaid a chynlluniau partneriaeth posibl’²⁸.

Mae’n ddiddorol bod y strategaeth yn archwilio’r cyswllt rhwng undebau credyd a rhaglen adfywio gymunedol amlwg Llywodraeth Cymru, Cymunedau yn Gyntaf. Mae’n amlinellu, wrth ystyried ail gam Cymunedau yn Gyntaf (ar gyfer y cyfnod 2009-2012²⁹), y byddai angen i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ‘ystyried sut i ddatblygu’r themâu cynhwysiant ariannol craidd i uchafu

²³ Ibid, Tud 18.

²⁴ Ibid, Tud 18.

²⁵ Ibid, Tud 19.

²⁶ Ibid, Tud 20.

²⁷ Ibid, Tud 23.

²⁸ Ibid, Tud 24.

²⁹ Y cyfeirir ato weithiau fel ‘y cam nesaf’.

incwm a lleihau dyled yn eu cymunedau, uchafu'r nifer sy'n cymryd budd-daliadau a chredyd treth a hybu a chefnogi undebau credyd'³⁰.

Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod bod ymdrin ag allgau ariannol yn her anodd iawn ac mae'n cydnabod yng nghyd-destun Cymunedau yn Gyntaf, 'nid yw'r partneriaethau [Cymunedau yn Gyntaf] sydd wedi sefydlu orau eto wedi ymdrin â'r materion economaidd caled sy'n ymwneud ag incwm pobl leol'³¹.

Mae'r strategaeth yn nodi er bod 'undebau credyd yn sicr yn chwaraewyr pwysig yn y frwydr barhaus yn erbyn allgau ariannol' ni ddylid eu gweld fel 'yr ateb cyflawn' ac 'i gyflawni eu potensial, mae undebau credyd yn gynyddol yn trefnu eu hunain mewn ffordd sydd yn fwy ymatebol i anghenion eu haelodau ac yn symud oddi wrth arferion oedd yn cyfyngu a oedd yn aml wedi eu gosod ganddynt hwy eu hunain'³².

O ran blaenoriaethau ar gyfer datblygiad y mudiad undebau credyd yng Nghymru yn y dyfodol, mae'r strategaeth yn nodi bod 'angen i'r mudiad undebau credyd ganolbwyntio ar sut y gall ddenu aelodau newydd, sydd, am ba bynnag reswm, yn benthyca gan fenthycwyr arian eraill sy'n codi llogau uchel'. Yn y cyswllt hwn, mae'r strategaeth yn tanlinellu'r ffaith bod 'contractau Cronfa Dwf Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru eisoes wedi codi proffil undebau credyd mewn rhai o'r cymunedau difreintiedig yng Nghymru ac mae eu proffil yn ymddangos fel pe bai'n codi'n uwch eto gyda'r contractau Cronfa Dwf newydd sy'n rhedeg hyd 2011'³³.

Gan adeiladu ar yr ymchwil a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru [fel yr oedd], i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru, roedd y strategaeth yn nodi ymrwymiad i ddatblygu Cynllun Gweithredu Undeb Credyd a fyddai'n ymdrin â

³⁰ Ibid, Tud 27.

³¹ Ibid, Tud 27.

³² Ibid, Tud 44.

³³ Ibid, Tud 44.

nifer o faterion allweddol yn ymwneud â rôl a chynaliadwyedd undebau credyd yng Nghymru (Ffig. 2):

Ffig 2: Materion Allweddol i'w trafod yn y Cynllun Gweithredu Undeb Credyd.

- Materion cynaliadwyedd a thwf y mae undebau credyd yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau ariannol hygyrch a fforddiadwy trwy Gymru gyfan.
- Lefelau'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol i ymdrin â'r materion hyn.
- Codi ymwybyddiaeth o undebau credyd a hybu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y mudiad.
- Ffyrdd y gellir cynyddu aelodaeth undebau credyd, yn arbennig ymhlith y rhai sy'n methu cael mynediad at wasanaethau ariannol prif-ffrwd.
- Ffyrdd y gall undebau credyd gynyddu'r nifer o staff, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr a gwella eu sgiliau.
- Dichonolrwydd gwasanaethau a rennir a chyfuno gwasanaethau i wella cynaliadwyedd y mudiad yn y tymor hir.

2.1.4 Cynllun Gweithredu Undebau Credyd Cymru

Yn dilyn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol gyntaf, fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel yr oedd, gyhoeddi Cynllun Gweithredu i'r Mudiad Undebau Credyd yng Nghymru³⁴.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi bod y mudiad undebau credyd yng Nghymru yn 'dal yn gymharol ifanc o'i gymharu â rhannau eraill o'r byd' a bod undebau credyd Cymru yn gyffredinol wedi 'cyrraedd cyfnod allweddol yn eu datblygiad wrth iddynt geisio dod yn ddarparwyr gwasanaethau ariannol sy'n rhoi'r pwyslais ar y gymuned i bobl Cymru, ar sail perthynas ariannol gydweithredol, gyfartal a llawn ymddiriedaeth'³⁵.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu rhai o'r camau cefnogi sydd wedi bod yn eu lle i undebau credyd yng Nghymru ers datganoli ac sydd wedi cael eu

³⁴ Codi'r Proffil: Ymateb i'r Her. Cynllun Gweithredu i'r Mudiad Undeb Credyd yng Nghymru. 2010-2013. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Tachwedd 2010.

³⁵ Ibid, Tud 5.

cydariannu gan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Mae hefyd yn cyfeirio'n benodol at y prosiect presennol, a ariennir trwy'r Rhaglen Gydgyfeirio trwy ddweud 'cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyllid newydd o £3.4 miliwn i gefnogi twf parhaus a chynaliadwyedd undebau credyd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys £1.6 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a £1.8 miliwn gan WEFO'.

Er gwaethaf twf ac ehangiad y mudiad undebau credyd yng Nghymru, mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu bod 'gwaith i'w wneud o hyd wrth roi'r offer i'r mudiad i gyflawni ei botensial llawn'³⁶.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cyfeirio yn benodol at ymchwil a wnaed i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru³⁷ i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009. Daeth yr ymchwil i'r casgliad bod angen:

- 'Cryfhau ymhellach systemau llywodraethu a rheoli undebau credyd trwy Gymru gyfan;
- Codi proffil undebau credyd yng Nghymru i sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu deall ac ar gael yn ehangach;
- Datblygu modelau busnes cynaliadwy wedi eu hanelu at ddenu aelodaeth eang ac amrywiol yn economaidd'³⁸.

Ar sail sefyllfa'r mudiad undebau credyd yng Nghymru ar y pryd hwnnw, mae'r Cynllun Gweithredu yn anelu at 'gefnogi datblygiad mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithiol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth ariannol hygyrch, fforddiadwy a chymharol, o safon uchel, sy'n medru diwallu anghenion holl ddinasyddion Cymru, gan gynnwys y rhai sydd â'r anghenion mwyaf'³⁹.

Dan y nod hon ar y lefel uchel mae pum amcan, sef:

³⁶ Ibid, Tud 8.

³⁷ Gwireddu'r Potensial: adolygiad o'r mudiad undebau credyd yng Nghymru. Hydref 2009. CICS, Ysgol Reolaeth UWIC.

³⁸ Cynllun Gweithredu Undebau Credyd Cymru, Tudalennau 9 a 10.

³⁹ Ibid, Tud 11.

- 'Cryfhau ymhellach safonau llywodraethu a chydymffurfio undebau credyd trwy Gymru gyfan;
- Cefnogi cynaliadwyedd tymor hir y mudiad undebau credyd yng Nghymru;
- Codi proffil y mudiad undebau credyd yng Nghymru trwy gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ohono;
- Cyflawni twf sylweddol yn aelodaeth undebau credyd yng Nghymru, wedi ei gysylltu â chynnydd graddol mewn cynilion, benthychiadau a roddir (asedau cyfredol) a'u had-dalu a chasglu asedau cyfalaf digonol; a
- Chefnogi undebau credyd sy'n darparu cynlluniau cynhwysiant ariannol'⁴⁰.

Yn ychwanegol, mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi cyfres o bum targed allweddol, sef:

- 'Cynyddu treiddiad undebau credyd i'r farchnad o 1.82% i 6% erbyn 2020, gan fynd â'r nifer o aelodau sy'n oedolion o tua 43,000 i tua 142,000;
- Cynyddu sylfaen asedau undebau credyd Cymru o £21m i £75m erbyn 2020;
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o undebau credyd yng Nghymru erbyn Medi 2013;
- Cynyddu'r nifer o wirfoddolwyr undebau credyd gweithredol o 754 yn 2009 i 1,000 erbyn Mawrth 2013; a
- Rhoi cefnogaeth i holl undebau credyd Cymru sy'n derbyn cyllid Llywodraeth y Cynulliad i adolygu a chyflawni yn ôl eu cynlluniau busnes tair blynedd presennol gan ddynodi sut ac erbyn pryd y gellir llwyddo i fod yn gynaliadwy - yr adolygiadau i fod wedi eu cynnal erbyn Medi 2011'⁴¹.

Mae'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yn amlinellu cyfres o 20 pwynt gweithredu penodol a fwriadwyd i ddatblygu'r mudiad undebau credyd yng Nghymru, llawer ohonynt felly wedi eu bwriadu hefyd i fod yn sail i waith y prosiect a ariennir gan y Gronfa Cydgyfeirio. I grynhoi, mae'r camau yn cynnwys gweithredoedd i:

⁴⁰ Ibid, Tud 11.

⁴¹ Ibid, Tud 12.

- Sefydlu Tîm o Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol dros Gymru fydd yn gweithio gyda'r partneriaid allweddol a'r rhanddeiliaid gyda'r nod o ddatblygu rhaglen recriwtio gwirfoddolwyr gydag undebau credyd trwy Gymru;
- Datblygu sgiliau a gallu'r rhai sy'n ymwneud â rhedeg undebau credyd (cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr) yng Nghymru trwy becynnau hyfforddiant a chefnogaeth (gan gynnwys hyfforddiant rheolaeth ariannol) a phecynnau offer adnoddau dynol er mwyn gwella proffesiynoldeb;
- Hyrwyddo arfer da yn y mudiad;
- Gwella hyfywedd a chynaliadwyedd undebau credyd trwy, er enghraifft baratoi cynlluniau busnes. Mae'r camau allweddol yn dangos yn glir y bydd peirianwaith cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru (trwy gytundebau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol) yn cael eu targedu at undebau credyd sy'n dangos ymrwymiad a gallu i dyfu eu haelodaeth a darparu ystod o wasanaethau sy'n bodloni gofynion eu haelodau a chreu digon o incwm iddynt fod yn hunan gynhaliol;
- Cefnogi 'cyfuno wedi ei gynllunio'n dda' rhwng undebau credyd a fydd yn 'cryfhau cynaliadwyedd tymor hir y mudiad undebau credyd yng Nghymru o bosibl';
- Archwilio (ar y cyd â rhaglen cynhwysiant digidol 'Communities Two Point Zero') y defnydd o dechnoleg ddigidol i hybu gwasanaethau undebau credyd;
- Cefnogi twf aelodaeth yng Nghymru gyda'r Social Investment Business (y darparwr ar gontract i'r prosiect Cydgyfeirio) yn helpu undebau credyd yn eu hymdrechion i recriwtio aelodau newydd o'r sector cyhoeddus ac ymdrin â rhwystrau tybiedig;
- Cynnal ymarfer mapio o gysylltiadau sy'n bodoli rhwng y sector cyhoeddus ac undebau credyd yng Nghymru;
- Cefnogi gwaith undebau credyd mewn ysgolion trwy Gymru gyfan;
- Datblygu 'cytundeb lefel gwasanaeth generig' lefel uchel rhwng y sector cyhoeddus a'r undebau credyd ac archwilio 'cytundeb partneriaeth fframwaith sengl' rhwng undebau credyd Cymru a Swyddfa'r Post Cyf.;

- Gwella peirianwaith croes gyfeirio rhwng undebau credyd a darparwyr cyngor/gwasanaeth eraill⁴².

2.1.5 Cymunedau yn Gyntaf - Y Dyfodol

Yng Ngorffennaf 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghorol dan y teitl **Cymunedau yn Gyntaf - Y Dyfodol**⁴³. Mae'r ddogfen yn cynnig, o Ebrill 2012, y bydd Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys strwythurau cyflawni newydd gyda 'mwy o ffocws ar gael tystiolaeth am yr effaith y mae gweithgareddau a ariennir yn lleol yn ei gael tuag at dri chanlyniad strategol - Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau Iachach'⁴⁴.

Yng nghyd-destun datblygu 'Cynlluniau Cyflawni Cymunedau yn Gyntaf' lleol mae Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o gynigion a allai fod yn rhan o'r cynlluniau cyflawni hyn. Dan y thema 'Cymunedau Ffyniannus', awgrymir gwaith i 'gefnogi undebau credyd' fel un o'r themâu y dylai Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eu hystyried.⁴⁵

2.1.6 Rhaglen y Llywodraeth 2011-2016

Yn ei Rhaglen bresennol ar gyfer y Llywodraeth⁴⁶, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei hymrwymiad parhaus i gefnogi undebau credyd fel 'partneriaid allweddol yn ein hamcan i ymdrin â thlodi ac allgau ariannol lle bynnag y mae'n parhau yn ein cymunedau'⁴⁷. Mae hefyd yn amlinellu ymrwymiad i 'barhau i gefnogi ac ehangu undebau credyd i gynnig gwasanaethau i'r rhai sydd wedi eu hallgau yn ariannol o'r darparwyr prif-ffrwd⁴⁸ yng nghyd-destun ymdrin â diffyg gwaith a chodi incwm aelwydydd. Yn ychwanegol, un o'r ymrwymadau allweddol a amlinellir yn y ddogfen yw 'archwilio gwaith gyda chynghorau lleol yng Nghymru i hybu darparu cyfleusterau didynnu o gyflogres hygyrch, er mwyn gwneud aelodaeth o undeb credyd yn haws i

⁴² Crynhowyd o Dudalennau 35 - 38 o Gynllun Gweithredu Undebau Credyd Cymru.

⁴³ Dogfen Ymgynghorol Llywodraeth Cymru. Cymunedau yn Gyntaf – y Dyfodol. 5 Gorffennaf 2011.

⁴⁴ Ibid. Rhagair.

⁴⁵ Ibid, Tud 19.

⁴⁶ Rhaglen y Llywodraeth (2011-2016). Llywodraeth Cymru. Medi 2011.

⁴⁷ Ibid, Tud 32.

⁴⁸ Ibid, Tud 33.

weithwyr awdurdod lleol⁴⁹. Mae'n sicr bod yr ymrwymiad hwn yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant cynllun didynnu o gyflogres Llywodraeth Cymru sydd wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd. Atgyfnerthwyd cynllun Llywodraeth Cymru yn ddiweddar fel peirianwaith allweddol i gefnogi'r sector undeb credyd gan Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a gyhoeddodd: 'mae Llywodraeth Cymru yn hybu undebau credyd yn weithredol trwy ddefnyddio didynnu o'r gyflogres i'w staff, ac rwyf wedi rhoi ymrwymiad i hybu aelodaeth undebau credyd ar draws llywodraeth leol yn yr un modd'⁵⁰.

2.1.7 Diwygiadau Cyfreithiol Gorchymyn (Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus ac Undebau Credyd) 2010

Tu hwnt i Gymru, mae'r cyd-destun cyfreithiol a gwleidyddol y mae undebau credyd yn gweithio ynddo yn newid.

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddogfen ymgynghorol ar Orchymyn Diwygio Cyfreithiol gyda'r nod o ddiwygio'r ddeddfwriaeth i Undebau Credyd a Chymdeithasau Diwydiannol a Darbodus ym Mhrydain. Y Gorchymyn yw ymateb deddfwriaethol y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ym Mehefin 2007 ar y 'Review of GB cooperative and credit union legislation'.

Mae'r ddeddfwriaeth, a ddaeth i rym ar 8 Tachwedd 2011, yn caniatáu i undebau credyd:

- ymestyn allan i grwpiau newydd trwy wasanaethu mwy nag un grŵp o bobl;
- darparu gwasanaethau i grwpiau cymunedol, busnesau a mentrau cymdeithasol;
- cynnig llogau ar gynilion, yn hytrach na difidend.

Mewn gwirionedd mae'r ddeddfwriaeth yn adeiladu ar y dymuniad (ar lefelau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru) i alluogi a grymuso

⁴⁹ Ibid, Atodiad Ymrwymiad Rhif 9/012

⁵⁰ <http://cymru.gov.uk/newsroom/housingandcommunity/2011/5276701/?lang=en&ts=4>

undebau credyd i chwarae rôl lawn a gweithredol wrth ymdrin ag allgau ariannol, yn rhannol trwy alluogi undebau credyd i ddod yn sefydliadau mwy hyblyg a chystadleuol. Yn y cyd-destun hwn, bydd y ddeddfwriaeth newydd yn golygu bod:

- Undebau credyd bellach ddim yn gorfod profi bod gan y darpar aelodau rywbeth yn gyffredin. Mae hyn yn golygu y byddant yn medru darparu gwasanaethau i grwpiau gwahanol o bobl mewn un undeb credyd, gan eu galluogi i ehangu eu sail aelodaeth gyda llai o gyfyngiadau;
- Bydd 'prawf maes aelodaeth' yn gwneud yn siŵr ei bod yn bosibl i'r holl ddarpar aelodau gael eu gwasanaethu gan yr undeb credyd. Mae undebau credyd sydd â'r 'cwlwm cyffredin' yn cynnwys ardal ddaearyddol yn cael eu cyfyngu i ddwy filiwn o ddarpar aelodau;
- Ni fydd undebau credyd bellach yn cael eu cyfyngu i wasanaethu unigolion ond byddant yn medru cynnig aelodaeth (gan gynnwys yr hawl i gynilo a benthyca gan undeb credyd) i gymdeithasau heb eu hymgorffori a chyrrff corfforedig (fel cwmnïau, sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol);
- Bydd rhai Undebau Credyd (yn amodol ar rai rheolau ac amodau) yn medru dewis talu cyfradd warantedig o logau yn hytrach na difidend blyneddol ar gynilion aelodau;
- Bydd aelodau yn medru cymharu cyfraddau llogau gan Undebau Credyd yn llawer haws gyda'r rhai gan ddarparwyr cynilion eraill;
- Bydd undebau credyd yn medru codi ffi am wasanaethau ategol (fel gwasanaethau trosglwyddo arian) a byddant yn cael mwy o hyblygrwydd wrth ddatblygu eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion eu haelodau/cwsmeriaid⁵¹.

2.1.8 Gwerthusiad o Gronfa Dwf yr Adran Gwaith a Phensiynau

Yn Rhagfyr 2010, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Werthusiad o'r Gronfa Dwf⁵².

⁵¹ Crynhowyd o nodyn briffio a baratowyd gan ABCUL.

⁵² Gwerthusiad o Gronfa Dwf y DWP. Adroddiad Terfynol Diwygiedig. Prifysgol Bryste ac Ecorys. Rhagfyr 2010.

Nod Cronfa Dwf y DWP oedd codi lefelau mynediad at gredyd fforddiadwy trwy gynyddu gallu benthycwyr y trydydd sector i wasanaethu aelwydydd sydd wedi eu hallgau yn ariannol ac wrth wneud hynny i amharu ar rôl credyd drud ym mywydau benthycwyr⁵³.

Roedd tair elfen i Gronfa Dwf y DWP oedd yn darparu:

- cyfalaf benthyciadau i fenthycwyr trydydd sector, undebau credyd a sefydliadau cyllid datblygu cymunedol yn bennaf i fenthycwyr i aelwydydd wedi eu hallgau yn ariannol;
- refeniw i fenthycwyr Cronfa Dwf i gefnogi'r gwaith o roi benthyciadau, er enghraifft i helpu talu am gostau gweinyddol a staff;
- cyllid i ddatblygu gallu benthycwyr y trydydd sector⁵⁴.

Darganfu'r Gwerthusiad bod 317,798 o fenthyciadau Cronfa Dwf wedi eu gwneud rhwng Gorffennaf 2006 hyd at Fedi 2010, gyda chyfanswm gwerth o dros £137 miliwn⁵⁵.

Daeth y Gwerthusiad i'r casgliad:

- Fe wnaeth y Gronfa Dwf gymryd lle'r elw i fenthycwyr masnachol (gan gynnwys benthycwyr drud iawn yn ogystal â darparwyr credyd eraill). O ystyried y dystiolaeth mai un o effeithiau'r Gronfa Dwf oedd helpu benthycwyr i ad-dalu eu dyledion dros gyfnod byrrach, amcangyfrifwyd bod yr elw a symudwyd yn cyrraedd cyfanswm o rhwng £21.3m a £30.5m;
- Fe wnaeth y Gronfa Dwf leihau'r llogau oedd yn cael eu talu gan fenthycwyr y Gronfa Dwf trwy leihau'r gyfradd o log oedd yn cael ei dalu ar fenthyciadau a byrhau'r cyfnod y mae benthycwyr yn ei gymryd i dalu eu dyledion. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y llogau a arbedwyd rhwng £377 a £425 i bob benthyciwr. Ar sail y 318,000 o fenthyciadau Cronfa Dwf a wnaed hyd ddiwedd Medi 2010, mae hyn yn golygu bod arbedion mewn llogau o rhwng £119.1miliwn a £135.1miliwn ar gael i unigolion ac aelwydydd yn y cymunedau lleol sy'n cael eu gwasanaethu gan y Gronfa

⁵³ Ibid, Tud 8.

⁵⁴ Ibid, Tud 8.

⁵⁵ Ibid, Tud 8.

Dwf, ac o'r rhain roedd rhwng £41.3m a £48.9m yn cynrychioli arbedion cyfraddau llog a'r gweddill, yn arbedion o ran cyfnod y benthyciadau;

- Defnyddiwyd y Gronfa Dwf yn bennaf gan y rhai mewn grwpiau incwm is, gan awgrymu bod effaith arall o ran dosbarthiad (ar y sail bod grwpiau incwm is yn rhoi mwy o werth ar incwm ychwanegol i'w wario na grwpiau incwm uwch). Amcangyfrifir bod hyn rhwng £89.9m a £101.3m os caiff cyfanswm yr arbediad ariannol ei drin fel budd-dal a rhwng £31.0m a £36.7m os caiff yr arbedion oherwydd y gostyngiad yn y gyfradd log yn unig eu trin fel budd-dal⁵⁶.

Ar ôl i Gronfa Dwf y DWP gael ei thynnu yn ôl, fe wnaeth y DWP gomisiynu astudiaeth i archwilio dichonolrwydd sefydlu rhaglen ddilynol i foderneiddio ac ehangu undebau credyd. Ar hyn o bryd mae pwyllgor llywio penodol i'r prosiect yn adolygu'r astudiaeth dichonolrwydd ac mae'n debygol o wneud argymhellion i Weinidogion y DWP o ran sut ac a ddylai'r rhaglen fynd yn ei blaen.

2.2 Ystyriaethau allweddol o ran y Prosiect Undebau Credyd

Mae ein hadolygiad polisi yn tanlinellu nifer o faterion allweddol sy'n berthnasol i'r Prosiect Undebau Credyd, gan gynnwys:

- Er bod y mudiad undebau credyd yng Nghymru wedi datblygu llai nag mewn gwledydd eraill, mae'r cyd-destun polisi yng Nghymru yn gefnogol iawn i undebau credyd fel peirianwaith allweddol wrth ymdrin ag allgau ariannol;
- Mae'r disgwyliadau ar undebau credyd yng Nghymru yn uchel iawn ac fe ellid dadlau eu bod yn afresymol. Mae'n ymddangos bod diffyg cysylltiad rhwng gallu presennol y mudiad undebau credyd yng Nghymru a'r dyhead iddo gyflawni'r amcanion polisi lefel uchel sy'n cwmpasu cyfiawnder cymdeithasol, datblygu economaidd a hyd yn oed addysg;
- Mae'r gefnogaeth i ddatblygu undebau credyd yng Nghymru yn amlwg iawn ac mae'r prosiect wedi ei wreiddio yn dda ac yn cyd-fynd â pholisïau

⁵⁶ Ibid, Tud 67.

allweddol Llywodraeth Cymru, gyda'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yn bennaf yn eu plith, sydd rhyngddynt yn nodi cyfeiriad manwl iawn ar gyfer y mudiad yng Nghymru;

- Bydd angen gwneud llawer o waith i ddatblygu'r gallu, hyfywedd a'r trefniadau llywodraethu ar undebau credyd yng Nghymru i'w galluogi a'u grymuso iddynt fedru cyflawni eu potensial fel sefydliadau ariannol yn y gymuned. Dylai newidiadau cyfreithiol sy'n cael eu creu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig fedru dadreoleiddio'r amgylchedd y mae undebau credyd yn gweithredu o'i mewn a galluogi golwg fwy hyblyg a masnachol sydd yn debygol o arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng undebau credyd a benthychwyr masnachol. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth hefyd y bydd raid i ddadreoleiddio fynd law yn llaw â chefnogaeth barhaus, er enghraifft, i wella sgiliau a gallu cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â rhedeg undebau credyd;
- Mae ymdrin ag allgau ariannol yn her sylweddol ac ni ellir disgwyl i undebau credyd gyflawni hyn yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yn pwysleisio pwysigrwydd awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a rhanddeiliaid lleol eraill yn gweithio ar y cyd ag undebau credyd ac yn eu cefnogi i gyflawni'r nod hwn.

3. CEFNDIR Y PROSIECT

3. 1 Y Prosiect Undebau Credyd: Cam Un

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Busnes i WEFO i sicrhau cyllid Rhaglen Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd i ddarparu cam un y Prosiect Undebau Credyd. Roedd y Cynllun Busnes yn cydnabod y byddai cyllid yr UE yn adeiladu ar y ddarpariaeth oedd ar gael i undebau credyd Cymru dan brosiect Amcan 1 blaenorol a oedd ar gael hyd at 2007. Roedd y cais yn nodi bod y prosiect yn anelu at 'alluogi undebau credyd i gael y gallu i ganolbwyntio ar eu cynaliadwyedd gyda chefnogaeth a chynghor gan asiant gweinyddol yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau cefnogi eraill yng Nghymru'⁵⁷.

Yn dilyn cymeradwyaeth WEFO yn Ionawr 2009⁵⁸ fe dynnwyd cyllid ardal Cydgyfeirio'r UE i lawr, gydag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, roedd arian ychwanegol ar gael i gefnogi undebau credyd tu allan i'r ardal Cydgyfeirio, gan greu rhaglen gyllido undebau credyd i Gymru gyfan oedd yn cyfateb i £750,000 rhwng 1 Ebrill 2009 a Mawrth 2010.

Roedd gan gam un y prosiect bum targed allweddol, sy'n cael eu cyflwyno yn Ffig. 3 isod:

Ffig 3: Targedau WEFO Cam Un Prosiect Undebau Credyd

	Targed
Mentrau cymdeithasol a gefnogwyd yn ariannol	14
Mentrau cymdeithasol a gynorthwywyd	14
Nifer o swyddi a grëwyd	3
Nifer o bobl oedd yn defnyddio'r gwasanaethau (gwasanaethau ariannol)	2,847
Sefydliadau yn mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro	11

⁵⁷ Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd (Cam Un): Cynllun Busnes td.4.

⁵⁸ Ffynhonnell: www.wefo.wales.gov.uk

Yn unol â phrosesau caffael WEFO a Llywodraeth Cymru fe wnaeth Llywodraeth Cymru gaffael Canolfan Cydweithredol Cymru trwy broses dendro agored i gyflwyno cam un y prosiect.

Fel rhan o gam un y prosiect, fe wnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid refeniw a chyfalaf ar gael i undebau credyd Cymru ar gyfer cyflawni amcanion y prosiect (fe wnaeth Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod cronfa ychwanegol o £1 miliwn ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf yn ychwanegol at y cyllid prosiect a drafodwyd yn gynharach).

Gwahoddwyd undebau credyd i wneud cais am y cyllid ac fe ddyfarnwyd cyllid i 22 o undebau credyd i gyd trwy gytundebau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/10⁵⁹ - o'r rhain dyfarnwyd cyllid cyfalaf a refeniw i 19 ohonynt a refeniw yn unig i dair. Disgwylid i'r contractwr darparu (Canolfan Cydweithredol Cymru) weinyddu'r cytundebau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol hyn ar ran Llywodraeth Cymru.

Roedd £1.9 miliwn mewn cyllid Gwasanaetha o Fudd Economaidd Cyffredinol ar gael i'r mudiad undebau credyd yn ystod 2009/10 gyda symiau unigol yn amrywio o £8,360 i £179,311. Bwriad y cyllid cyfalaf oedd caniatáu i undebau credyd gael asedau ac fe'u defnyddiwyd i dalu costau adnewyddu mewnol, atgyweirio allanol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a phrynu offer swyddfa, prynu adeiladau ac ad-dalu morgeisi oedd yn dal i'w talu. Roedd cytundebau cyllido yn nodi bod yr asedau cyfalaf i gael eu cadw gan yr undebau credyd a'u defnyddio i ddarparu'r gwasanaethau am leiafswm o dair blynedd.

Dyrannwyd cyllid refeniw ar draws y tri maes gweithredu allweddol, sef:

- Costau staff ac argostau cyflogaeth eraill;
- Costau eraill oedd yn cynnwys costau recriwtio, cyfraniad tuag at orbenion yn ogystal â phrosiectau penodol;

⁵⁹ Er bod y contractau 12 mis wedi eu hymestyn i Fedi 2010.

- Costau marchnata - fe wnaed swm penodol o £2,000 ar gael i bob undeb credyd.

Cyflwynir y cyllid a ddyrannwyd i bob undeb credyd yn Ffig. 4 isod:

Ffig 4: Cytundebau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol Undebau Credyd Llywodraeth Cymru 2009/10⁶⁰

	Cyllid Cyfalaf (£)	Cyllid Refeniw (£)	Cyfanswm (£)
Aberhonddu a'r Ardal	569	29,429	29,998
Bridgend Lifesavers	122,000	46,584	168,584
Bwrdeistref Merthyr Tudful	120,000	49,291	169,291
Caledfryn	0	42,367	42,367
Caerdydd a'r Fro	24,219	0	24,219
Castell-nedd Port Talbot	19,000	57,921	76,921
CB Wrecsam	146,412	13,734	160,146
Cwm Llyfni	0	27,122	27,122
Cymuned Islwyn	16,061	28,245	44,306
Cymuned Landsker	62,250	75,000	137,250
Dragonsavers	151,767	27,545	179,312
Gateway	34,029	98,941	132,970
Haven	0	8,360	8,360
LASA	3,491	38,758	42,249
Llandudno a'r Ardal	60,060	0	60,060
Robert Owen Sir Drefaldwyn	4,000	106,448	110,448
Sir y Fflint Gyfan	10,350	0	10,350
Smart Money	26,526	99,508	126,034
UC Casnewydd	36,000	28,302	64,302
Undeb Credyd Arfordir Clwyd	82,588	26,552	109,140
Undeb Credyd Credcer	99,995	54,735	154,730
Y Llechen	13,500	28,050	41,550
Cyfanswm	1,032,817	866,892	1,919,709

Roedd gan bob undeb credyd dargedau penodol i'w cyrraedd fel rhan o'u cytundeb cyllido a thrafodir y rhain yn fanwl yn adran 4.3.

⁶⁰ Dyfarnwyd yn ystod 2009/10 am gyfnod o flwyddyn i gychwyn ond fe gawsant eu hymestyn hyd Medi 2010.

3.2 Y Prosiect Undebau Credyd: Cam Dau

Cyflwynwyd cais am gyllid i WEFO i ariannu'n rhannol gam dau'r Prosiect Undebau Credyd ar draws ardaloedd Cydgyfeirio Cymru. Hysbysodd WEFO Lywodraeth Cymru ym Medi 2010 bod ei chais am ERDF Cydgyfeirio wedi bod yn llwyddiannus a dyfarnwyd £1,880,762 EU o gyllid. Roedd cyfanswm y cyllid oedd ar gael ar gyfer cam dau yn £3,496,010 gyda £1,615,248 o hwn ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Mae ail gam y prosiect wedi bod yn weithredol ers Hydref 2010 a bydd yn parhau hyd Ragfyr 2013.

Nod cam dau'r prosiect, fel y nodir yn y cynllun busnes, yw:

'cefnogi datblygiad mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithiol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth ariannol hygyrch, fforddiadwy a chymharol, o safon uchel, sy'n medru diwallu anghenion holl ddinasyddion Cymru, gan gynnwys y rhai sydd â'r anghenion mwyaf.'⁶¹

Er bod y Cynllun Busnes wedi ei baratoi cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd, roedd y nod, fodd bynnag, yn gyson gyda nodau'r Cynllun Gweithredu (a drafodwyd yn gynharach yn 2.1.4). Roedd yr amcanion, fodd bynnag, ychydig yn llai penodol na'r rhai yn y Cynllun Gweithredu:

'I

- gryfhau safonau llywodraethu a chydymffurfio undebau credyd yng Nghymru;
- Cefnogi cynaliadwyedd tymor hir y mudiad undebau credyd;
- Codi proffil y mudiad undebau credyd;
- Annog twf mewn aelodaeth - cyflawni twf sylweddol yn aelodaeth undebau credyd yng Nghymru, wedi ei gysylltu â chynnydd graddol mewn cynilion, benthyciadau a roddir (asedau cyfredol) a'u had-dalu a chasglu asedau cyfalaf digonol; a

⁶¹ Cynllun Busnes Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd (Cam Dau) a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno i WEFO (Cyfeirnod Achos 806617) Tudalen 3

- Chefnogi undebau credyd sy'n darparu cynlluniau cynhwysiant ariannol'.⁶²

Roedd y cynllun busnes hefyd yn nodi y byddai'r prosiect yn cael ei ddarparu gan dîm penodol o dri o staff yn Uned Cynhwysiant Ariannol Adran Cymunedau Llywodraeth Cymru ac y byddai ymarfer caffael yn cael ei gynnal i benodi contractwr cyflawni.

Y targedau a gymeradwywyd gan WEFO ar gyfer y cyfnod tair blynedd yn ystod cam dau oedd:

Ffig 5: Targedau WEFO Cam Dau Prosiect Undebau Credyd

	Targed
Mentrau cymdeithasol a gefnogwyd yn ariannol	17
Mentrau cymdeithasol a gynorthwywyd	17
Nifer o swyddi a grëwyd	7
Mentrau cymdeithasol a grëwyd	1
Nifer o bobl oedd yn defnyddio'r gwasanaethau (gwasanaethau ariannol)	7,500
Mentrau yn mabwysiadu neu wella Systemau Rheoli Amgylcheddol	17
Mentrau yn mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro	17
Mentrau cymdeithasol a grëwyd net	1
Swyddi a grëwyd net	1

Roedd y targed am un fenter gymdeithasol newydd i gael ei chreu (ac un fenter gymdeithasol net i gael ei chreu) yn cyfeirio at gyfuno nifer o undebau credyd yng Ngogledd Cymru i greu un undeb credyd newydd. Mae hyn yn arwyddocaol o ran ei fod yn dangos polisi o gadarnhau a chryfhau'r sylfaen presennol o undebau credyd, yn hytrach na chanolbwyntio ar greu rhai newydd, ychwanegol.

Dynodwyd y buddiolwyr targed (yn yr Ardaloedd Cydgyfeirio) fel:

- Undebau credyd, eu staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r bwrdd;
- Aelodau presennol yr undebau credyd; ac
- Unigolion sydd wedi eu hallgau yn ariannol yn defnyddio gwasanaethau ariannol.

⁶² Ibid., td. 3

Cyhoeddwyd manyleb ar gyfer cyflawni'r Prosiect Undebau Credyd (cam dau) gan Lywodraeth Cymru. Nododd y fanyleb y byddai cyllid o £3 miliwn ar gael i ddarparwr gwasanaeth i gyflawni'r prosiect ond bod disgwyl i ddim llai na 70% o'r gyllideb hon fod ar gael yn uniongyrchol i undebau credyd a dim mwy na 30% yn cael ei gadw gan y corff cyflawni i dalu costau gweinyddu'r prosiect a darparu'r gefnogaeth berthnasol. Yn y pen draw dyfarnwyd y contract i TSIB gyflawni prosiect cam dau.

Wrth baratoi at gam dau'r prosiect, gwahoddodd Llywodraeth Cymru'r undebau credyd i ymgeisio am gyllid ychwanegol gan gyhoeddi ail gyfran o Gytundebau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol blwyddyn i 19 undeb credyd ar gyfer y cyfnod Medi 2010 - 2011. Fe sicrhawyd bod cyllid refeniw o ychydig dros £750,000 ar gael gyda'r symiau cyllido unigol yn amrywio o £21,260 (Undeb Credyd Aberhonddu) i £50,000 (Arfordir Clwyd, Gateway, Credcer, ROMCUL a Smart Money), fel y cyflwynir yn Ffig. 6 isod. Nid oedd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael i gynnig arian cyfalaf i undebau credyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ychwanegol, fe sicrhawyd bod cyllid ar gyfer dau brosiect penodol ar gael - sef i ariannu Swyddog Adfer Dyledion yn Undeb Credyd Smart Money (£27,464) a'r prosiect Cydgordio Ariannol a'r prosiect Sganio Dogfennau (y ddau yn cael eu darparu gan Undeb Credyd Gateway ac yn cyfateb i £22,937).

Gwnaed y cynigion ar sail un flwyddyn, gyda dewis i ymestyn i flynyddoedd eraill yn amodol ar asesiad o'r perfformiad yn y flwyddyn gyntaf. Yn debyg i gam un, roedd gan bob undeb credyd a ariannwyd dargedau penodol i'w cyrraedd, fel sy'n cael ei drafod yn fanwl yn Adran 4.3 o'r adroddiad.

Yn ystod Awst 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru drydedd set o gytundebau ariannu undebau credyd Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol am gyfnod o ddwy flynedd o Hydref 2011 i Fedi 2013. Mae'r symiau a gadarnhawyd yn cael eu cyflwyno yn Ffig. 6 isod. Mae'n werth nodi bod cyllid yn awr ar gael i 16 undeb credyd yn dilyn gweld pump o undebau credyd Gogledd Cymru yn uno yn gynnar yn 2011 - ac fel y byddid yn disgwyl

mae'r cyllid sydd ar gael i'r undeb credyd newydd wedi uno yn llawer mwy nag i rai eraill, llai.

Ffig 6: Cytundebau Ariannu Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol Cam Dau i Undebau Credyd (Arian Refeniw)

Undeb Credyd	Cyllid Blwyddyn Gyntaf Cam Dau (1 Hyd 10 - 30 Medi 11) (£)	Cyllid Ail a Thrydedd Flwyddyn Cam Dau (1 Hyd 11 - 30 Medi 11)	Cyfanswm Cyllid Cam Dau
Aberhonddu a'r Ardal	21,260	42,520	63,780
Arfordir Clwyd	50,000	-	50,000
Bridgend Lifesavers	34,453	68,906	103,359
Bwrdeistref Merthyr Tudful	39,431	81,377 ⁶³	39,431
Caerdydd a'r Fro	22,374	44,748	67,122
Caledfryn	35,537	-	35,537
Castell-nedd Port Talbot	45,558	91,116	136,674
Cymuned Islwyn	23,500	47,000	70,500
Dragonsavers	46,000	92,000	138,000
Gateway	50,000	127,500	177,500
Gogledd Cymru	amh	396,178	396,178
Haven	30,000	70,000 ⁶⁴	30,000
LASA	24,406	48,812	73,218
Llandudno a'r Ardal	34,676	-	34,676
Save Easy	30,453	60,906	91,359
Sir Drefaldwyn Robert Owen (ROMCUL)	50,000	Heb ei gadarnhau	Heb ei gadarnhau
Smart Money	50,000	89,000	139,000
UC Casnewydd	35,000	72,500	107,500
Undeb Credyd Credcer	50,000	90,000 ⁶⁵	50,000
Wreccsam	46,876	-	46,876
Y Llechen	31,000	-	31,000
Cyfanswm	750,524	1,181,186	1,931,710

⁶³ Yn cynnwys ychwanegiad adfer dyled o £2,500.

⁶⁴ Yn cynnwys ychwanegiad adfer dyled o £10,000

⁶⁵ Yn cynnwys ychwanegiad adfer dyled o £10,000

4. CANFYDDIADAU

4.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon rydym yn ystyried y rhesymeg gychwynnol a pharhaus ar gyfer y prosiect (Adran 4.2), cyn troi i adolygu targedau a llwyddiannau'r prosiect (Adran 4.3). Rydym wedyn yn archwilio'r trefniadau i gyflawni'r prosiect (Adran 4.4) ac yn cyflwyno'r adborth o undebau credyd ar y gefnogaeth a dderbyniwyd hyd yn hyn (Adran 4.5). Mae Adran 4.6 yn edrych ar rai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y sector undebau credyd ac yn ystyried y cyfraniad a wnaed gan y prosiect. Yn olaf rydym yn cyflwyno rhai enghreifftiau o arfer da a gwersi a ddysgwyd o gam un (Adran 4.7) ac yn crynhoi'r amcanion presennol a'r sialensiau sy'n wynebu'r sector (Adran 4.8).

4.2 Rhesymeg y Prosiect

4.2.1 Angen a Galw

Roedd yr ymgylgoreion yn gytûn, bod angen cryf wedi bodoli ac yn dal i fodoli am ymyrraeth sector cyhoeddus i gefnogi a datblygu sector undebau credyd cynaliadwy yng Nghymru. Dadleuwyd bod rhan helaeth o'r ddadl dros ymyrraeth wedi ei disgrifio'n dda mewn polisïau a strategaethau amrywiol a bod ewyllys gwleidyddol cryf yn bodoli i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth undebau credyd yng Nghymru.

Fodd bynnag roedd diffyg consensws ymhlith yr ymgylgoreion am y blaenoriaethau y dylai'r prosiect fod wedi eu mabwysiadu. Er enghraifft, dywedodd un o'r ymgylgoreion ei fod yn meddwl y dylai'r prosiect fod wedi canolbwyntio ar gynnal darpariaeth undebau credyd trwy Gymru gyfan ac y dylai'r gefnogaeth fod wedi cael ei hanelu at sicrhau nad oedd unrhyw undeb credyd yn mynd 'dan y don' tra bod un arall yn pwysleisio pwysigrwydd targedu undebau credyd sy'n dangos y potensial i dyfu a llwyddo. Aeth yr unigolyn hwn ymlaen i amau gwerth 'taflu arian da at broblem' yng nghydestun cynnig gwasanaeth cefnogaeth fyddai ar gael i bawb.

Wedi dweud hyn, roedd yr ymgylgyngoreion yn gytûn am y problemau sy'n wynebu'r mudiad undebau credyd yng Nghymru a'r sialensiau penodol yr oedd angen i'r prosiect helpu i'w taclo. Roedd llawer o'r ymgylgyngoreion o'r farn bod y sector undebau credyd ymhell o fod yn hunan gynhaliol pan gychwynnwyd cam un y prosiect ac felly bod angen cyllid a chefnogaeth ymgylgnghorol i ymdrin â'r her. Cyfeiriodd eraill at faterion diwylliannol cynhenid fel diffyg uchelgais ac ymdeimlad bod rhai undebau credyd yn rhy fach i fedru gweithredu yn effeithlon.

Er bod eglurder am y problemau sy'n wynebu'r sector, tynnodd nifer o'r ymgylgyngoreion sylw at y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan y sector undebau credyd (yn arbennig trwy'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd) a'r lefel o adnoddau sydd wedi eu dyrannu i ddatblygu'r sector - yn arbennig o ran y lefel o gefnogaeth sydd ar gael i undebau credyd trwy'r prosiect. Roedd rhai o'r farn y dylai undebau credyd fod wedi cael rhagor o adnoddau i symud ymlaen â rhai o'r disgwyliadau a amlinellir yn yr amrywiol ddogfennau strategaeth, tra bod eraill yn dadlau y dylai'r disgwyliadau fod wedi cael eu cadw yn fwy realistig ac y dylai undebau credyd gael eu hannog i ganolbwyntio ar eu cylch gorchwyl craidd.

Yn groes i farn swyddogion Llywodraeth Cymru ac i'r polisi a nodir, teimlai lleiafrif o'r ymgylgyngoreion, bod y gefnogaeth a ddarparwyd trwy'r prosiect yn ystod cam un a rhan gyntaf rhan dau wedi canolbwyntio gormod ar uno undebau credyd, gan weithredu ar y gred gyffredinol y byddai'r ffocws hwn yn arwain at fwy o gynaliadwyedd yn y sector. Fodd bynnag, awgrymwyd bod y pwyslais ar uno wedi lleihau o ran blaenoriaeth dros y misoedd diwethaf - 'mae uno wedi mynd yn eilbeth' - gyda'r ffocws yn awr ar gael yr undebau credyd sy'n bodoli i ddod yn fwy hyfyw yn ariannol eu hunain.

Roedd nifer o'r ymgylgyngoreion o'r farn bod blaenoriaethau eraill ar gyfer y sector trwy'r prosiect wedi newid dros amser. Dadleuwyd, er enghraifft, gan nifer fechan o'r ymgylgyngoreion, bod pwysigrwydd cefnogi undebau credyd i

ddod yn ddull o ymdrin ag allgau ariannol wedi cael mwy o flaenoriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf - er bod y flaenoriaeth hon wedi bod yn bwyslais yn y prosiect ers peth amser. Pwysleisiodd yr ymgynghoreion hefyd bod y mudiad undebau credyd wedi bod, ac yn parhau i fod, yn cael ei ystyried yn rhan ganolog o strategaeth cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru. Ar y llaw arall roedd y flaenoriaeth amlwg a roddwyd i undebau credyd weithio gydag ysgolion uwchradd, a oedd yn un o ymrwymadau Cymru'n Un, yn cael ei ystyried i fod wedi lleihau mewn pwysigrwydd dros amser. Awgrymwyd bod y penderfyniad hwn wedi dod o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys ymateb gwael gan rai ysgolion uwchradd i ymdrechion undebau credyd a'r ffaith bod y gwaith yn aml yn tynnu sylw undebau credyd oddi wrth eu cylch gorchwyl craidd. Dros y misoedd diwethaf dadleuwyd bod cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru wedi dod i dderbyn bod rhanddeiliaid eraill mewn gwell sefyllfa i arwain wrth sicrhau mwy o ddealltwriaeth o faterion cynhwysiant ariannol a mwy o ymwneud â hwy yn y system addysg na'r undebau credyd - yn fwyaf arbennig Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, er gwaethaf y ffaith bod y targedau a nodir yn y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd wedi cael eu datblygu ar y cyd gyda'r undebau credyd eu hunain, awgrymodd nifer fechan o'r ymgynghoreion bod y targed ar gyfer recriwtio nifer fawr o wirfoddolwyr, fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd, wedi bod yn anaddas, oherwydd, yn eu barn nhw, y brif sialens oedd yn wynebu nifer o undebau credyd oedd, nid y nifer o wirfoddolwyr ond yr anhawster i recriwtio a chadw'r nifer fechan o wirfoddolwyr fyddai'n medru ac yn barod i fod yn Gyfarwyddwyr.

Er mai ychydig o wybodaeth oedd am amcanion y cynllun busnes yn gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid, teimlai'r ymgynghoreion oedd yn gyfarwydd â'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd a chynllun busnes y prosiect (fel y'i cyflwynwyd i WEFO) bod diffyg cysylltiad rhwng eu hamcanion. Roedd y diffyg cyswllt hwn, fe deimlid, wedi creu nifer o broblemau gweithredol a chyflawni - yn arbennig o ran gosod targedau cyflawni gwasanaeth ar gyfer undebau credyd unigol ac wrth fesur eu cynnydd.

4.2.2 Newidiadau Allanol

Yn ychwanegol at y datblygiadau polisi a deddfwriaethol allweddol a drafodir yn Adran 2, dadleuai'r ymgylgoreion bod newidiadau eraill yn yr amgylchedd allanol wedi arwain at wneud y prosiect yn fwy perthnasol fyth.

Credid mai'r newid pwysicaf o'r newidiadau allanol hyn oedd effeithiau'r dirywiad economaidd a'r angen i gryfhau rôl undebau credyd fel dewis go iawn i'r broblem gynyddol o fenthycu arian anghyfrifol ac anghyfreithlon yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn meddwl bod yr amgyffrediad negyddol o sefydliadau ariannol sector preifat o ganlyniad i'r argyfwng credyd byd-eang yn cynnig cyfleoedd posibl i undebau credyd, gan y credid eu bod yn cynnig dewis oedd yn fwy teilwng a derbyniol yn gymdeithasol ar gyfer buddsoddi.

Cyfeiriodd yr ymgylgoreion hefyd at y ffaith bod cyflwyno'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant wedi rhoi cyfle i undebau credyd fanteisio ar gynnyrch newydd posibl. Fodd bynnag, teimlai rhai o'r ymgylgoreion bod y mudiad undebau credyd yng Nghymru 'heb [fod] yn hollol barod' i fanteisio ar y datblygiad hwn. O'r rhai a oedd wedi gwneud hynny, rhoddwyd ymdrechion sylweddol i fynd ar y rhestr o sefydliadau a gymeradwywyd gan HMRC ac yna eu bod wedi wynebu anhawster wrth geisio cystadlu gyda darparwyr masnachol. Credwyd mai effaith ymylol iawn a gafodd dwyn y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant i ben yng Nghymru, yn bennaf oherwydd y nifer gyfyngedig o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant a agorwyd. Aeth un o'r ymgylgoreion ymlaen i ddadlau gan mai dim ond yr undebau credyd 'mwyaf deinamig' fyddai wedi cynnwys y rhain fel rhan o'u cynnyrch, y byddent yn ddigon cadarn yn ariannol i ymdopi â diweddu'r cynllun Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant.

Yn yr un modd, roedd darpariaeth Cronfa Dwf y DWP, oedd ar gael ers 2006, wedi rhoi cyfle i rai undebau credyd yng Nghymru i gael mynediad at gronfeydd ar gyfer cynnig benthyciadau fforddiadwy i bobl ar incwm isel.

Deallir bod chwech o undebau credyd Cymru⁶⁶ wedi manteisio ar y cynllun dan arweiniad y DWP a bod rhyw 8,700 o fenthyciadau wedi eu gwneud o werth £4.1 miliwn rhwng 2006 a diwedd 2010.⁶⁷ Fe wnaeth y Gronfa Dwf hefyd gynnig adnoddau ychwanegol i Ganolfan Cydweithredol Cymru (a gafodd y gwaith o reoli'r Gronfa yng Nghymru), a ddefnyddiwyd i gyd-fynd â chyllid y prosiect i roi cefnogaeth i'r sector. Credid bod y Gronfa Dwf wedi cael derbyniad da yng Nghymru a bod penderfyniad y DWP i ddwyn y Gronfa i ben wedi codi nifer o broblemau i lawer o undebau credyd a Chanolfan Cydweithredol Cymru - ac yn eu plith gostyngiad mewn adnoddau i redeg eu gweithrediadau a'u gwasanaethau cefnogi. Fodd bynnag roedd yr ymgylgoreion yn croesawu'r rhaglen ddilynol arfaethedig i'r Gronfa Dwf ac yn dadlau y gallai'r Rhaglen Moderneiddio ac Ehangu Undebau Credyd, os aiff yn ei blaen, gynnig yr un lefel o adnoddau i undebau credyd Cymru. Serch hynny, pwysleisiodd ymgylgoreion y DWP y byddai angen i unrhyw gyllid fyddai ar gael yn y dyfodol trwy'r rhaglen hon fedru dangos gwell gwerth am arian a chael ei ddefnyddio yn fwy effeithiol i 'foderneiddio' gweithrediadau undebau credyd.

Roedd yn ddiddorol nodi, bod yr ymgylgoreion oedd â gwybodaeth am ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol ar lefel y Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn meddwl bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi mwy o bwyslais ar i sector undebau credyd y Deyrnas Unedig fod yn hunan gynhaliol ac yn rhoi mwy o bwyslais ar raglenni cefnogi oedd yn cynnig gwell gwerth am arian. Ychwanegodd un o'r ymgylgoreion, ar lefel y Deyrnas Unedig, bod nifer o enghreifftiau da o undebau credyd yn cyflawni'r nod hwn o well cynaliadwyedd er eu bod yn dueddol o fod yn undebau credyd mwy neu'n achosion lle'r oedd undebau credyd llai wedi uno. Ym marn yr ymgylghorai hwn, roedd y rhai oedd yn methu mynd yn hunan gynhaliol yn debygol o ddod i 'ddiwedd naturiol' gan na fyddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymyrryd yn y dyfodol i gefnogi undebau credyd sy'n ddibynnol ar grantiau.

⁶⁶ Bridgend Lifesavers, ELM Moneyline, Undeb Credyd Merthyr, Castell-nedd Port Talbot, Undeb Credyd Gogledd Cymru ac Undeb Credyd Smart Money

⁶⁷ Codi'r Proffil: Ymateb i'r Her (Tach 2010) tudalen 6

4.2.1 Cytundebau Cyllido Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol

Awgrymwyd gan nifer fechan o'r rhai a gyfwelwyd bod darparu arian cyfalaf i undebau credyd yn ystod 2009/10 wedi bod yn ymyrraeth oedd wedi manteisio ar gyfle, yn hytrach nag ymyrraeth strategol, o ran bod yr Uned Undebau Credyd wedi medru manteisio ar danwariant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn bryderus, o ganlyniad i'r ffaith bod undebau credyd wedi cael dewis ar beth i wario cyfalaf arno, mai ychydig o gysondeb oedd yn bodoli gydag un neu ddau o'r ymgylgoreion yn dadlau nad oedd y broses o ddyrannu arian cyfalaf wedi cael ei hystyried mor drylwyr ac y gallai.

Roedd mwyafrif yr ymgylgoreion oedd mewn sefyllfa i wneud sylw yn dadlau bod yr egwyddor o ddarparu arian cyfalaf yn addas ond bod gwersi sylweddol wedi cael eu dysgu o'r profiad. Yn benodol, dadleuwyd gan rai ymgylgoreion y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi rhoi mwy o arweiniad a chyfeiriad o ran sut y dylai undebau credyd ddefnyddio arian cyfalaf, yn arbennig o ystyried bod y cyllid oedd ar gael yn gymharol gyfyngedig. Yn ychwanegol cododd rhai o'r ymgylgoreion bryderon nad oedd y broses diwydrwydd dyladwy a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol o ystyried bod un undeb credyd (Landsker) wedi ei dirwyn i ben oherwydd anawsterau ariannol rhyw dri mis ar ôl i'r buddsoddiad cyfalaf gael ei wneud. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cynnal ymarfer diwydrwydd dyladwy mwy trylwyr ar undebau credyd oedd yn ymgeisio am arian ac ymestyn cyfnod y contract (a osodwyd ar dair blynedd) ar gyfer y cyllid.

Er gwaethaf y pryderon hyn, fodd bynnag, roedd yr ymgylgoreion o'r farn bod y buddsoddiad cyfalaf wedi ei ddefnyddio'n effeithiol, ei fod wedi bod yn allweddol wrth helpu rhai undebau credyd i ddatblygu eu presenoldeb ffisegol. Rhoddodd yr ymgylgoreion enghreifftiau o undebau credyd oedd wedi cael budd o'r buddsoddiad cyfalaf - roedd Credcer, er enghraifft wedi medru prynu a symud i adeilad newydd a thrwy hynny leihau ei chostau rhedeg. Yn yr un modd, roedd undeb credyd Merthyr wedi cael adeilad ar y stryd fawr gyda'r

arian ac o ganlyniad wedi datblygu ffenest siop lawer gwell ar gyfer eu gweithrediadau.

Roedd darparu cyllid refeniw i undebau credyd, ar y cyfan yn cael ei ystyried gan yr ymgynghoreion i fod yn agwedd resymegol o'r gefnogaeth oedd ar gael er bod rhai wedi mynegi pryderon bod y grant refeniw, i ryw raddau, yn cymell diwylliant o ddibynnu ar grantiau ymhlith undebau credyd. Yn ychwanegol, awgrymodd rhai o'r ymgynghoreion hefyd bod darparu cyllid refeniw i undebau credyd ar gyfer 'darpariaethau' penodol yn hytrach na chyllid 'craidd' neu heb gyfyngiad wedi bod yn gysyniad anodd i undebau credyd ei ddeall - yn arbennig o ystyried y ffaith bod ar lawer angen cyllid i dalu costau rhedeg craidd, yn hytrach na darpariaeth ychwanegol yn benodol i ffrydiau cyllid.

Yn olaf, pwysleisiodd yr ymgynghoreion yr her y mae undebau credyd yn ei wynebu yng nghynllun y prosiect i gysylltu cyllid refeniw â thargedau yn ymwneud â chefnogi aelodau sydd wedi eu hallgau yn ariannol. Er ei fod yn cael ei ddeall yn gyffredinol bod y gofyn hwn yn deillio o reoliadau WEFO i osgoi cymhlethdodau o ran cymorth gan y wladwriaeth, fe honnwyd gan rai o'r ymgynghoreion nad oedd pob undeb credyd wedi deall na derbyn yr agenda hwn yn llawn. Dadleuwyd bod rhai undebau credyd yn parhau i ddilyn eu strategaethau presennol o hybu niferoedd aelodau yn fwy cyffredinol gan na allent oroesi yn syml ar ddarparu gwasanaethau i aelodau sy'n cael eu hallgau yn ariannol yn unig. Fel y nododd un o'r ymgynghoreion, mae 'rhyw gyferbyniad rhwng cynaliadwyedd ac allgau ariannol'. Yn wir, fe wnaeth Canolfan Cydweithredol Cymru, yn ei chefnogaeth i undebau credyd yn ystod cam un, gydnabod y broblem hon a honni eu bod yn darparu model ymyrryd holistaidd o gefnogaeth o ganlyniad.

Gwaethygydd y pwynt hwn ymhellach gan y diffyg diffiniad cyson o 'unigolion sydd wedi eu hallgau yn ariannol' yr oedd yr undebau credyd a Llywodraeth Cymru yn cytuno arno - er ein bod yn deall bod cytundeb ar ddiffiniad cyffredin ar lefel prosiect yn ddiweddar.

Dros y misoedd diwethaf, ac wrth ddatblygu'r rownd bresennol o gytundebau cyllido (ar gyfer 2011/12), mae'r adborth gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at well dealltwriaeth ymhlith undebau credyd o sut y gellir cyrraedd y targedau ar gyfer cefnogi'r rhai sydd wedi eu hallgau yn ariannol a hefyd ddatblygu undebau credyd sy'n gynaliadwy. Disgwylir i undebau credyd gynyddu eu haelodau sydd wedi eu hallgau yn ariannol i fod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ond fe wnaed yn glir bod Llywodraeth Cymru hefyd yn annog undebau credyd i gynyddu eu haelodaeth yn gyffredinol ar yr un pryd. Er gwaethaf hyn, nododd rhai undebau credyd y gwrthddywediad oedd yn cael ei amgyffred bod 'y Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol yn ein hannog i ganolbwyntio ar bobl sy'n derbyn budd-daliadau yn gysylltiedig ag incwm fel aelodau. Os byddwn yn dilyn y llwybr hwnnw bydd yn ei gwneud hi bron yn amhosibl i ni fod yn hunan gynhaliol'.

4.3 Targedau a Pherfformiad y Prosiect

Yn yr adran hon rydym yn trafod y graddau y mae targedau cam un (targedau WEFO, targedau darparwyr a thargedau undebau credyd unigol) wedi cael eu cyrraedd cyn troi i drafod perfformiad hyd yn hyn o'i gymharu â thargedau cam dau.

4.3.1 Targedau Cam Un y Prosiect

Fel y trafodwyd yn Adran 3.1, roedd gan gam un y prosiect bum targed lefel uchel i'w cyrraedd ar draws ardaloedd Cydgyfeirio Cymru. Yn ôl y data oedd ar gael mewn adroddiadau amrywiol gan Ganolfan Cydweithredol Cymru roedd y prosiect wedi llwyddo i naill ai gyrraedd neu fynd tu hwnt i'r rhan fwyaf o'r targedau hyn ond nid oedd wedi llwyddo i gyrraedd un (cefnogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau ariannol), fel y gwelir yn Ffig. 7 isod.

*Ffig 7: Perfformiad o'i Gymharu â Thargedau Cam Un*⁶⁸

	Targed	Cyflawnwyd
Cynorthwyo mentrau cymdeithasol	14	19
Cefnogi mentrau cymdeithasol yn ariannol	14	19
Creu swyddi newydd	3	3
Cefnogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau ariannol	2,847	2,417 ⁶⁹
Sefydliadau yn mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro	11	13

Mae ein dadansoddiad o'r allbynnau a gofnodwyd ar ddiwedd cam un yn datgelu peth dryswch am yr hyn a gyflawnwyd gan fod adroddiadau gwahanol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn datgelu data gwahanol⁷⁰. Mae'r dryswch am yr allbynnau a gyflawnwyd ar ddiwedd cam un yn cael ei ddwysau ymhellach gan y diffyg tystiolaeth sydd ar gael i ddilysu rhai o'r allbynnau y rhoddwyd adroddiad arnynt i WEFO ar ddiwedd cam un yn ogystal â'r diffyg cysondeb yn y diffiniadau a fabwysiadwyd gan y prosiect wrth roi adroddiad ar yr allbynnau hyn.

4.3.2 Targedau Cam Un Undebau Credyd

Roedd nifer a natur y targedau y cytunwyd arnynt gydag undebau credyd ar gyfer cam un yn amrywio. Roeddent yn amrywio o dri tharged (e.e. Smart Money a Wrecsam) i chwe tharged (e.e. Casnewydd). Roedd y mathau o dargedau a fabwysiadwyd yn cynnwys:

- Cynnydd mewn aelodaeth (aelodau hŷn ac iau);
- Cynnydd mewn Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant;

⁶⁸ Cymerwyd o Adroddiad Terfynol Cam Un a gynhyrchwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru Adroddiad Cynnydd ar gyfer Medi 2011 a gynhyrchwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.

⁶⁹ Cymerwyd o Adroddiad Cynnydd hyd at Fedi 2011 a gynhyrchwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.

⁷⁰ Er enghraifft mae Adroddiad Cynnydd hyd at Medi 2011 a gynhyrchwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru yn rhoi ffigyrau allbwn prosiect gwahanol i rai'r adroddiad terfynol cam un a gynhyrchwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Er enghraifft mae'r Adroddiad Cynnydd hyd at Fedi 2011 yn dangos bod 12 sefydliad wedi mabwysiadu neu wella eu strategaethau cydraddoldeb a'u systemau monitro tra bod yr adroddiad terfynol cam un yn cyflwyno hyn fel 13 sefydliad.

- Cynnydd mewn Mannau Casglu mewn Ysgolion;
- Cynnydd mewn Gwirfoddolwyr;
- Cynnydd mewn Darpariaeth/Adfer Dyledion Drwg;
- Cynnydd yn y Benthyciadau y Cytunwyd arnynt.

Datgelodd ein gwaith maes nifer o broblemau gyda'r targedau a fabwysiadwyd gan undebau credyd yn ystod cam un. Awgrymwyd bod yr amrywiaeth yn natur a nifer y targedau yn deillio o'r ffaith bod y targedau wedi cael eu cynnig gan yr undebau credyd eu hunain yn ystod y cyfnod ymgeisio ac nad oedd unrhyw gysondeb o ran diffiniadau. Yn ychwanegol ni fu unrhyw ymdrech gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu diffiniad cyson ar gyfer y targedau a fabwysiadwyd. Mae hyn wedi creu anawsterau i Lywodraeth Cymru wrth geisio mesur llwyddiant cymharol undebau credyd ac wrth asesu'r gwerth am arian oedd yn deillio o'r buddsoddiad ariannol a wnaed.

Yn ychwanegol, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gysondeb clir rhwng targedau'r prosiect y cytunwyd arnynt gyda WEFO â thargedau'r undebau credyd unigol. Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid y sylw bod hyn yn ddiffyg yng nghynllun y prosiect a mynd ymlaen i ddweud y dylai targedau WEFO fod wedi cael eu cysylltu yn gliriach â chytundebau ariannu'r undebau credyd unigol.

Mae adroddiad terfynol cam un a gynhyrchwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru⁷¹ yn cyflwyno data perfformiad ar 18 o undebau credyd a gefnogwyd gan y prosiect⁷². Mae dadansoddiad o'r data yn dangos canlyniadau cymharol wan o ran perfformiad undebau credyd o'i gymharu â'u targedau:

- Dim ond dau undeb credyd (Wreccsam ac Arfordir Clwyd) a lwyddodd i gyflawni neu fynd tu hwnt i'w holl dargedau a chofnodwyd bod chwe undeb credyd arall yn debygol o gyflawni eu targedau. Mae'n ddiddorol nodi bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cofnodi bod yr wyth wedi llwyddo o ran cyflawni neu fynd tu hwnt i holl dargedau'r Gwasanaeth o Fudd

⁷¹ Cynhyrchwyd yn Rhagfyr 2010 ar y Cyfnod yn dod i ben Medi 2010.

⁷² Ac eithrio Undeb Credyd Haven.

Economaidd Cyffredinol er gwaethaf y ffaith mai canlyniadau a ragwelwyd yn hytrach na rhai a gyflawnwyd oedd yn y rhan fwyaf o achosion;

- Dim ond saith o'r pymtheg undeb credyd oedd wedi llwyddo o ran eu targed cynyddu aelodaeth⁷³ (nid oedd gan dair undeb credyd unrhyw dargedau'n ymwneud â chynnydd mewn aelodaeth). Roedd dwy (allan o gyfanswm o bedair) undeb credyd wedi llwyddo i gyflawni eu targedau aelodaeth iau (h.y. pobl ifanc⁷⁴) (roedd un o'r rhain wedi cyflawni ei tharged aelodaeth hyn hefyd). Er gwaethaf hyn, mae testun yr Adroddiad Terfynol yn nodi bod 'mwyafrif yr undebau credyd wedi mynd tu hwnt i'w ffigyrau aelodaeth targed' sydd, fe ellid dadlau, yn ddehongliad goroptimistaidd o berfformiad;
- Fe wnaeth tair undeb credyd fethu cyrraedd unrhyw un o'u targedau (Undebau Credyd Y Llechen, Llyfni a Gateway) er mai dim ond un o'r rhain sy'n cael ei nodi yn y testun (Y Llechen) ac yn dweud bod hyn oherwydd 'yn bennaf ddifffyg cyllid yn arwain at ostyngiad yn oriau staff a chynnydd mewn trosiant staff';
- Fe fethodd pump o'r saith undeb credyd oedd wedi cytuno ar dargedau Cronfa Ymddiriedolaeth Plant i'w cyrraedd ac yn ôl yr Adroddiad Terfynol roedd hyn i raddau helaeth oherwydd penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i beidio â rhannu talebau Cronfa Ymddiriedolaeth Plant;
- Ni lwyddodd unrhyw un o'r pum undeb credyd a oedd â thargedau ar gyfer sefydlu mannau casglu mewn ysgolion i gyflawni hyn.

Mae'r adroddiad terfynol ar gyfer cam un hefyd yn nodi bod dau undeb credyd wedi gorwario ar ddiwedd y prosiect ac wedi gorfod gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol i dalu'r symiau hyn tra bod chwe undeb credyd wedi tanwario ar ddiwedd y prosiect. Roedd cyfanswm tanwariant y prosiect (gan ystyried unrhyw orwariant) yn cael ei gofnodi ar £77,626 (yn bennaf oherwydd gorfod dal arian yn ôl oddi ar Undeb Credyd Landsker).

⁷³ Wedi ei ddiffinio fel targed aelodaeth gyffredinol neu aelodaeth oedolion

⁷⁴ Nid oedd diffiniad o beth yw pobl ifanc yn y cyd-destun hwn ar gael.

4.3.3 Targedau Cam Un Canolfan Cydweithredol Cymru

Roedd y Cynllun Busnes cam un gwreiddiol yn amlinellu chwe maes allweddol o weithgaredd y disgwylid i'r darparwr ar contract eu darparu dros y flwyddyn:

- Gwneud undebau credyd yn Fusnesau Gwell trwy ddarparu cyngor a chefnogaeth busnes i alluogi undebau credyd i gyrraedd gofynion Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 a'r rheolau yn llawlyfr undebau credyd y FSA. Fel rhan o hyn disgwylir i'r prosiect gefnogi undebau credyd wrth iddynt baratoi ac adolygu eu cynlluniau busnes gyda phwyslais ar ddod yn sefydliadau cynaliadwy yn y tymor hir;
- Cynnal adolygiadau Gwiriad Iechyd o undebau credyd – byddai hyn yn cynnwys cynnal adolygiad strategol o'r undeb credyd a sicrhau bod gweithdrefnau cynllunio busnes addas yn cael eu rhoi yn eu lle. Roedd yn cael ei ragweld hefyd y byddai'r prosiect yn cefnogi undebau credyd i ddynodi eu cryfderau a'u gwendidau a rhoi eu blaenoriaethau cynllunio busnes yn nhrefn blaenoriaeth. Yn ychwanegol, disgwylir i bob undeb credyd fod yn destun adolygiad chwarterol ar eu cynlluniau busnes;
- Cynnal Archwiliadau Sgiliau a dadansoddiad anghenion hyfforddiant - er mwyn gwella sgiliau busnes a safonau llywodraethu ymhlith undebau credyd fe gynigwyd y dylai Archwiliad Sgiliau o undebau credyd gael ei gynnal a fyddai'n amlinellu cynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw fylchau mewn sgiliau rheoli a busnes. Disgwylid hefyd i'r prosiect ddarparu hyfforddiant penodol mewnol i staff a gwirfoddolwyr (yn ymdrin ag ystod eang o feysydd gan gynnwys marchnata ac adnoddau dynol) ac i gyfeirio undebau credyd at ffynonellau hyfforddiant eraill;
- Hyrwyddo prosiectau treialu blaengar a chysylltiadau â chynlluniau trwy'r Deyrnas Unedig - disgwylid i'r prosiect gefnogi datblygu prosiectau treialu (fel y cyfrifon Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant fel yr oeddynt a'r Partneriaethau Bancio Cymunedol arfaethedig). Rhagwelid hefyd y byddai'r prosiect yn cynnal a chryfhau'r berthynas gyda phrosiectau cynhwysiant ariannol yn y Deyrnas Unedig (fel Prosiect Atal Digartrefedd yr Oak Foundation) a darpariaeth Cronfa Dwf y DWP;
- Cynnal y ddarpariaeth cyngor ariannol arbenigol - trwy recriwtio cynghorydd arbenigol a fyddai mewn gwirionedd yn parhau'r ddarpariaeth

a oedd ar gael ar y pryd trwy'r Cynllun Adfer Dyled a Chyngor Ariannol (DRAMA)⁷⁵ ond yr oedd disgwyl iddo ddod i ben yn Hydref 2008;

- Datblygu ymhellach fynediad i ysgolion uwchradd - rhagwelid y byddai astudiaeth dichonolrwydd yn cael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i archwilio effeithiolrwydd undebau credyd wrth iddynt ymwneud ag ysgolion uwchradd (ac ysgolion cynradd) ac y byddai cefnogaeth ar gael yn uniongyrchol i'r undebau credyd hynny fyddai â'r gallu i ymwneud ag ysgolion uwchradd trwy sefydlu mannau casglu.

Yn ychwanegol at y gweithgareddau hyn oedd yn gysylltiedig â chefnogaeth, fe ragwelwyd hefyd y byddai'r darparwr yn gweinyddu Cytundebau Cyllido'r Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb yn nodi y byddai Canolfan Cydweithredol Cymru yn cefnogi:

'Undebau credyd i ddod yn well busnesau a dod yn gynaliadwy a sefydlog yn economaidd'

trwy ddarparu ystod o wasanaethau yn cynnwys gwneud taliadau i'r undebau credyd, cynnal gwaith archwilio a monitro ar undebau credyd, ymdrin ag ymholiadau a darparu ystod o wasanaethau cefnogi busnes.

Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddyrannu targedau penodol i Ganolfan Cydweithredol Cymru tu hwnt i'r amcanion gweithgareddau hyn ond fe ddisgwylid i'r sefydliad roi adroddiad ar berfformiad undebau credyd unigol a oedd yn derbyn cefnogaeth.

Mae adolygiad o ddogfennau amrywiol ac adborth o ymgynghoriadau yn awgrymu bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyflawni ei hymrwymadau dan y contract i raddau helaeth yn ystod cam un a darparu'r gefnogaeth a amlinellir uchod, er bod prif bwyslais y gwaith wedi ei gyfeirio tuag at

⁷⁵ Sefydlwyd y cynllun Adfer Dyled a Chyngor Ariannol (DRAMA) yn 2003 ac fe'i cyllidwyd i gychwyn gan Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i gefnogi unigolion gyda phroblemau dyled. Roedd yn gweithio'n glos gyda'r Undebau Credyd i wella eu gweithdrefnau rhoi credyd hwy trwy gasglu gwybodaeth fwy cywir a manwl gan ymgeiswyr lleol.

weinyddu'r cytundebau ariannu'r Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol. Mae adroddiad terfynol cam un yn nodi bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cynnal gwaith marchnata uniongyrchol i dros 220 o ysgolion uwchradd trwy anfon cardiau post ym Medi 2010 a bod hyfforddiant penodol ar gael i undebau credyd ar bedwar prif faes:

- Hyfforddiant Cynllunio Busnes a Dadansoddi Cymarebau;
- Hyfforddiant Marchnata sylfaenol;
- Hyfforddiant Strategaeth Cydraddoldeb (cwrs dau ddiwrnod);
- Gweithdai Pecyn Offer Gwybodaeth Rheoli Undeb Credyd, cwrs dau ddiwrnod).

Oherwydd y diffyg Dangosyddion Perfformiad Allweddol penodol i Ganolfan Cydweithredol Cymru eu darparu yng ngham un mae'n anodd iawn asesu ei lwyddiant, neu fel arall, wrth gyrraedd amcanion Llywodraeth Cymru. Cyflwynir adolygiad o'i wasanaethau ac adborth gan undebau credyd yn Adran 4.4.

4.3.4 Targedau Cam Dau'r Prosiect

Mae gan y prosiect cam dau naw targed ar lefel uchel ac roedd yr ymgylgoreion oedd yn gyfarwydd â'r targedau hyn yn hyderus y byddent yn cael eu cyflawni erbyn 2013. Yn Ffig. 8 gwelir perfformiad presennol y prosiect (fel yr oedd ar ddiwedd Medi 2011) sy'n dangos bod y prosiect yn fras yn cadw at y targed i gefnogi'r 17 menter gymdeithasol yr oedd yn ofynnol iddo ei wneud. Er na roddwyd adroddiad ar unrhyw allbwn swyddi a grëwyd i WEFO hyd yn hyn, roedd cynrychiolwyr y prosiect yn hyderus bod y rhain eisoes wedi cael eu cyflawni (yn uniongyrchol yn yr undebau credyd o ganlyniad i'r cyllid refeniw a roddwyd i gefnogi swyddi yn y sefydliadau) ond bod angen tystiolaeth ar ei gyfer cyn rhoi adroddiad i WEFO. Mewn cyferbyniad, roedd yr ymgylgoreion yn meddwl bod y targed o gefnogi pobl i gael mynediad at wasanaethau ariannol (a osodwyd ar 7,500 o unigolion) yn llawer mwy heriol, yn arbennig o ystyried y ffaith nad oedd yr un o'r contractau undebau credyd Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol blaenorol yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r targed hwn hyd yn hyn a heb newid (i wneud cysylltiad mwy

uniongyrchol rhwng gweithgaredd ar y ddaear a'r targed) y byddent yn annhebygol iawn o arwain at gyrraedd y targed o 7,500.

Ffig 8: Perfformiad o'i Gymharu â Thargedau Cam Dau Medi 2011

	Targed	Cyflawnwyd hyd yn hyn
Mentrau cymdeithasol a gefnogwyd yn ariannol	17	16
Mentrau cymdeithasol a gynorthwywyd	17	16
Nifer o swyddi a grëwyd	7	0
Mentrau cymdeithasol a grëwyd	1	1
Nifer o bobl oedd yn defnyddio'r gwasanaethau (gwasanaethau ariannol)	7,500	3,710
Mentrau yn mabwysiadu neu wella Systemau Rheoli Amgylcheddol	17	9 wedi'u mabwysiadu ⁷⁶ 4 wedi'u gwella
Mentrau yn mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro	17	7 ⁷⁷
Mentrau cymdeithasol a grëwyd net	1	0
Swyddi a grëwyd net	1	3

4.3.5 Targedau Cam Dau Undebau Credyd

Roedd y targedau a osodwyd ar gyfer undebau credyd yn ystod blwyddyn gyntaf cam dau hyd yn oed yn fwy eang na'r rhai a fabwysiadwyd yn ystod cam un ac fe gynyddodd y nifer o dargedau i bob undeb credyd o bedwar (e.e. Aberhonddu) i ddeg (e.e. Dragon Savers a LASA). Mae llawer o'r targedau yn parhau i fod ar sail gweithgaredd (e.e. recriwtio aelod newydd o staff, recriwtio gwirfoddolwyr neu agor mannau casglu newydd) tra bod eraill yn canolbwyntio ar allbwn (e.e. cynyddu niferoedd aelodau, recriwtio aelodau iau, agor cyfrifon newydd). Roedd gan dair undeb credyd (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro a Merthyr) dargedau gwasanaeth gwerth ychwanegol fel cynnydd mewn Cynilwyr Iau a'r nifer o fentrau mewn ysgolion a lansiwyd.

Wrth gofio bod gan undebau credyd eu chwarter olaf i gyrraedd eu targedau blynyddol, mae'r data oedd ar gael i ni am y cyfnod Hydref 2010 - Mehefin 2011 yn awgrymu bod y cynnydd yr oedd undebau credyd unigol yn ei ddangos wrth geisio cyrraedd eu targedau blynyddol yn gymysg. Mae'r data

⁷⁶ Fel yr oedd ym mis Tachwedd 2011.

⁷⁷ Fel yr oedd ym mis Tachwedd 2011.

oedd ar gael gan TSIB ar lwyddiannau 15 undeb credyd o'u cymharu â thargedau gwasanaeth ar gyfer y tri chwarter cyntaf o gam dau yn dangos:

- Bod tair undeb credyd ⁷⁸ yn ymddangos fel petaent yn gwneud cynnydd da iawn o'u cymharu â'u targedau blynyddol, a hwythau eisoes wedi cyrraedd pob un ond un neu ddau o'u targedau;
- Mae wyth undeb credyd yn ymddangos fel pe baent yn dangos cynnydd rhesymol o'u cymharu â'u targedau blynyddol, o ystyried nad oedd y chwarter olaf ar gyfer 2010/11 eto wedi cael ei gofnodi ar adeg ein gwaith ymchwil;
- Roedd pedwar undeb credyd ⁷⁹ yn dangos cynnydd gwael o'i gymharu â'u targedau blynyddol - nid oedd un ohonynt wedi cyflawni unrhyw un o'i targedau a dim ond un o'r targedau yr oedd y tair arall wedi ei gyflawni.

O ystyried yr amrywiaeth eang mewn targedau a'r diffyg cysondeb rhwng targedau undebau credyd unigol a rhai'r prosiect cyfan mae'n eithriadol o anodd trafod ymhellach berfformiad undebau credyd oedd yn cael cefnogaeth wrth gyfrannu tuag at dargedau Cynllun Busnes y prosiect.

Mae penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i symleiddio Cytundebau Ariannu Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol undebau credyd ar gyfer gweddill rhan dau a'u cysoni yn fwy clir â thargedau ar lefel y prosiect, yn ein barn ni, yn ddatblygiad i'w groesawu. O Hydref 2011 ymlaen mae'n ofynnol i undebau credyd gyflawni yn erbyn dau amcan allweddol, sef:

- Darparu mynediad at gynhyrchion ariannol sylfaenol sy'n syml, tryloyw ac isel eu cost i bobl sy'n cael eu hystyried yn rhai wedi eu hallgau yn ariannol gan ddefnyddio'r diffiniad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru; a
- Chynnig cefnogaeth a gwybodaeth i bobl sy'n cael eu hystyried yn rhai wedi eu hallgau yn ariannol am reoli arian a chredyd fforddiadwy.

⁷⁸ Aberhonddu, Pen-y-bont ar Ogwr a Dragon Savers

⁷⁹ Caerdydd a'r Fro, Gateway, Haven a Romcul

Yn fwy trawiadol, fodd bynnag, mae'n awr yn ofynnol i undebau credyd gyflawni a rhoi adroddiad ar un targed allweddol yn hytrach na'r amryfal dargedau blaenorol, sef:

'gynnig y gwasanaethau ... i ddim llai na [nifer] o bobl nad oedd yn aelodau o'r undeb credyd cynt ac sy'n cael eu hystyried yn rhai wedi eu hallgau yn ariannol'.

4.3.6 Targedau Cam Dau TSIB

Mae'r rôl y mae disgwyl i'r TSIB ei chwarae, fel darparwr ar gontract y prosiect, yn debyg i rôl Canolfan Cydweithredol Cymru yn ystod cam un, o ran mai gofynion penodol y contract yw rheoli dosbarthu taliadau grant Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol i undebau credyd a darparu cefnogaeth a chynghor i undebau credyd. Mae natur y gefnogaeth a'r cynghor yn debyg i'r rhai yng ngham un y prosiect ac mae'n cynnwys y gweithgareddau canlynol, pob un yn arwain at Ddangosydd Perfformiad Allweddol penodol :

Ffig 9: Dangosyddion Perfformiad Allweddol TSIB Cam Dau (Blwyddyn Gyntaf)⁸⁰

1. Cefnogaeth Fusnes
- Pob undeb credyd a gefnogir gan y prosiect i gael cynllun busnes sy'n cydymffurfio â gofynion y FSA erbyn Mawrth 2011. Hefyd cyflwyno cynllun busnes model a thempled rhagolygon ariannol (a fyddai'n dod yn ofynnol ar gyfer cefnogaeth Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol ; yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru) - Cwblhau Gwiriad Iechyd ar gyfer yr holl undebau credyd a gefnogir gan y prosiect erbyn Hydref 2011 - Cwblhau archwiliad iechyd a dadansoddiad anghenion hyfforddiant ar gyfer yr holl undebau credyd a gefnogir gan y prosiect erbyn Hydref 2011 - Cynnig cefnogaeth i'r holl undebau credyd amrywio gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau HMRC a FSA.
2. Gwella Safonau Llywodraethu Corfforaethol
- Cynnig hyfforddiant rheoli ariannol i staff uwch undebau credyd a chyfarwyddwyr ariannol erbyn Gorffennaf 2011 a hyfforddiant llywodraethu i aelodau'r Bwrdd erbyn Mawrth 2011 - Darparu rhaglen hyfforddi gwirfoddolwyr - Cynhyrchu pecyn offer adnoddau dynol a sicrhau ei fod ar gael ar-lein erbyn Mehefin 2011 - Sicrhau bod cynlluniau olynu yn eu lle ar gyfer pob undeb credyd erbyn Hydref 2011
3. Cyfuno a gwasanaethau a rennir
- Cyngor proffesiynol yn cael ei gynnig i undebau credyd yn unol â gofynion a chanllawiau'r FSA. - Cynnal dadansoddiad cost a budd i ddangos yr arbedion y gellir eu creu trwy ddefnyddio gwasanaethau a rennir erbyn Mehefin 2011
4. Codi Ymwybyddiaeth a Marchnata
- Dosbarthu deunydd hyrwyddo pan fyddant ar gael ac awgrymu ffyrdd newydd o farchnata gwaith undebau credyd - O leiaf pum erthygl yn y wasg y flwyddyn yn y gogledd a'r de; hyrwyddo undebau credyd mewn tri digwyddiad cenedlaethol a thri digwyddiad rhanbarthol y flwyddyn a chynnig pum astudiaeth achos newydd y flwyddyn i'w hyrwyddo ar y wefan - Sicrhau bod mentrau trwy'r Deyrnas Unedig yn cael eu hamlygu ar wefan y prosiect a'u hyrwyddo mewn gohebiaeth ag undebau credyd - Hyrwyddo a chefnogi (a hefyd sicrhau bod undebau credyd yn hyrwyddo a defnyddio) undebau credyd mewn ysgolion uwchradd
5. Cefnogaeth a gweithgaredd cyffredinol
- Sicrhau bod pob adroddiad chwarterol, gwybodaeth ariannol a hawliadau yn cael eu cyflwyno mewn pryd gan gadw at safonau boddhaol - Cynhyrchu map o'r holl gysylltiadau rhwng y gwaith a wnaed ar ran unrhyw sefydliadau sy'n gweithio dros bobl sydd wedi eu hallgau yn ariannol a mannau cyswllt iddynt a'i gyhoeddi ar wefan erbyn Medi 2011 - Cwblhau cytundeb ar bartneriaethau awdurdod lleol/undebau credyd y gellir eu cyflwyno mewn bwrdd sector cyhoeddus erbyn Hydref 2011 - Helpu undebau credyd i ddatblygu a gwella strategaethau a systemau cynaliadwyedd amgylcheddol a chydaddoldeb - Monitro a gwerthuso gwaith gydag adroddiad gwerthuso llawn erbyn Rhagfyr 2013.

Yn ychwanegol, mae'r fanyleb yn nodi y byddai blaenoriaethau eraill yn cael eu dynodi dros hyd y contract a bod disgwyl i'r darparwr gynorthwyo undebau credyd a ddynodwyd fel rhai sydd 'mewn trafferth neu'n methu'.

⁸⁰ Cymerwyd o'r Fanyleb ar gyfer Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd (Cam 2) Rhagfyr 2010.

Roedd yr adborth gan ymgylngoreion oedd yn gyfarwydd â gwaith TSIB yn awgrymu bod y darparwr yn dangos cynnydd rhesymol o'i gymharu â mwyafrif y dangosyddion perfformiad allweddol; er ei fod yn gyffredinol ar ôl yr amserlen o ran y rhaglenni a nodwyd ar gyfer cyflawni'r dangosyddion hyn. Mae'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chefnogaeth fusnes yn ymddangos yn llawer nes at y rhaglen y cytunwyd arni na gweithgareddau eraill.

4.4 Trefniadau Cyflawni'r Prosiect

Yn yr adran hon rydym yn trafod y trefniadau cyflawni penodol ar gyfer cam un (Adran 4.4.1) a cham dau (Adran 4.4.2) cyn troi i drafod strwythurau mwy cyffredinol sydd wedi cael eu mabwysiadu i'r prosiect (Adran 4.4.3) a chyflwyno'r adborth ar y trefniadau hyn gan yr undebau credyd a holwyd (Adran 4.4.4).

4.4.1 Trefniadau Cyflawni Cam Un

Cyn trafod y prosiect cam un yn fanwl, mae'n werth tanlinellu'r ffaith bod rhai ymgylngoreion wedi mynegi eu pryderon bod bwloch wedi bod yn y gefnogaeth i undebau credyd rhwng diwedd y ddarpariaeth Amcan 1 a'r cyfnod pan ddaeth y prosiect cam un (Cyddyfeirio) i fodolaeth. Roedd yn cael ei gydnabod, er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid interim i gefnogi rhai o'r undebau credyd fel cam 'dros dro' yn ystod y cyfnod hwn, bod tystiolaeth i awgrymu bod rhai undebau credyd wedi gweld dirywiad yn eu gweithrediadau yn ystod y cyfnod hwn.

Penododd Llywodraeth Cymru Reolwr Prosiect dros dro i oruchwylio'r prosiect ar gyfer rhywfaint o'r cyfnod cyflawni cam un. Cefnogwyd y Rheolwr Prosiect gan rai adnoddau gweinyddol ond nid oedd yr adnoddau oedd ar gael yn Llywodraeth Cymru i reoli'r prosiect peilot yn sylweddol.

Yn ystod cam un fe sefydlwyd Grŵp Cyswllt Undebau Credyd Cenedlaethol ac roedd yr ymgylngoreion oedd yn gyfarwydd ag ef yn meddwl ei fod wedi

gweithio'n dda. Ar ôl ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2009, mae'r Grŵp yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn i 'brofi'r dull sy'n cael ei fabwysiadu gan y prosiect yn gyson trwy oes y prosiect'⁸¹. Credai'r rhan fwyaf o'r undebau credyd bod y Grŵp hwn yn cynnig peirianwaith effeithiol i gysylltu ar draws y sector. Ar ôl dweud hynny, fe wnaeth un undeb credyd a holwyd amau gallu'r Grŵp i gynrychioli barn yr holl undebau credyd ac roedd yr un ymatebydd yn meddwl ei fod yn gwneud 'job wael iawn' wrth gynrychioli eu hundeb credyd penodol nhw.

Mae'r adborth gan gynrychiolwyr Canolfan Cydweithredol Cymru yn cyfeirio at brif ffocws y ddarpariaeth cam un fel rheoli cytundebau cyllido Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol gyda'r ddarpariaeth ddatblygu i undebau credyd yn cael rôl eilradd os rhywbeth. Yn ychwanegol, roedd rhai yn dadlau, er bod y cam cyntaf yn amlwg wedi ei nodi fel prosiect peilot gan Lywodraeth Cymru, nad oedd yn cael ei ystyried yn brosiect peilot yn yr ystyr bod yr undebau credyd yn gweld y cyllid gan Lywodraeth Cymru fel parhad ar gyllid blaenorol. Awgrymwyd bod cam un yn cael ei weld fel ymyrraeth dros dro cyn i brosiect mwy cynhwysfawr gael ei roi yn ei le.

Yn yr ystyr hwn, fe godwyd cwestiynau am effeithiolrwydd y prosiect cam un gydag un ymgynghorai yn dadlau bod Canolfan Cydweithredol Cymru yn syml wedi parhau â'u gwasanaeth blaenorol i'r sector yn hytrach na chynnig darpariaeth newydd, beilot: 'fe wnaethant barhau â'r hyn yr oeddynt yn ei wneud cynt - nid oedd dim wedi newid'. Awgrymodd un o'r ymgynghoreion bod yr adnoddau prin oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru wedi cyfyngu ar allu Canolfan Cydweithredol Cymru i ddarparu gwasanaeth cefnogi mwy cynhwysfawr i undebau credyd.

Yn dilyn y pwynt hwn, yn eu hadroddiad terfynol ar gam un, fe dynnodd Canolfan Cydweithredol Cymru sylw at broblemau yn ymwneud a chyflawni yr oedd yn teimlo eu bod wedi cyfyngu ar lwyddiant y prosiect⁸²:

⁸¹ Ibid, td. 5

⁸² Adroddiad Terfynol - GFEC Cam Un Canolfan Cydweithredol Cymru td.5

- Diffyg cyfathrebu rhwng undebau credyd a rhwng yr undebau credyd a Llywodraeth Cymru;
- Diffyg penawdau cyllideb safonol a diffiniadau o dargedau a fabwysiadwyd mewn Cytundebau Ariannu Gwsanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol;
- Anawsterau yn gysylltiedig â throsglwyddo arian ar draws penawdau cyllideb;
- Diffyg gweithdrefnau ariannol trefnus mewn undebau credyd yn ymwneud â rhoi tystiolaeth o wariant.

Fodd bynnag, o ran y ddarpariaeth cam un, dadleuodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru bod y prosiect mewn gwirionedd wedi treialu nifer o ddulliau newydd yn ystod y cam hwn gan gynnwys cydweithio ar draws undebau credyd. Roedd nifer o'r gwersi a ddysgwyd, ac un o'r rhai pwysicaf o'u plith oedd bod angen i nodau ac amcanion eang y prosiect gael adnoddau addas, wedi cael eu defnyddio wedyn fel sail i gynllunio a datblygu'r cynllun busnes cam dau. Dadleuwyd hefyd bod y dull a fabwysiadwyd yn ystod cam un wedi cael ei gefnogi gan gasgliadau'r ymchwil a wnaed gan UWIC yn ystod 2009.

4.4.2 Trefniadau Cyflawni Cam Dau

Erbyn cam dau fe sefydlwyd tîm prosiect craidd yn Llywodraeth Cymru gyda mwy o adnoddau yn yr Uned Trydydd Sector i gadw cyfrifoldeb am reoli a chydlynu'r prosiect Undebau Credyd. Yn ychwanegol, mae tîm bychan yn TSIB (yn cynnwys Rheolwr Prosiect, Gweinyddwr Prosiect a thîm o gynghorwyr) ar gontract i weithio'n uniongyrchol gydag undebau credyd.

Awgrymwyd gan y rhanddeiliaid oedd yn gyfarwydd â'r ddarpariaeth oedd ar gael bod gwahaniaethau clir yn y dull a fabwysiadwyd gan TSIB yn ystod cam dau mewn cymhariaeth â dull Canolfan Cydweithredol Cymru yn ystod cam un - er enghraifft, dadleuodd un o'r ymgynghoreion bod system rheoli cyfrif mwy rhagweithiol wedi cael ei mabwysiadu (lle mae cynghorydd yn gweithio yn uniongyrchol gydag undebau credyd unigol) ac mae'r ddarpariaeth yn fwy

rhagweithiol yn ei hymdrechion i ddynodi a datrys anawsterau sy'n wynebu undebau credyd.

Fodd bynnag, roedd consensws cyffredinol ymhlith y rhai a allai roi sylw y dylai'r contract ariannu cam dau i TSIB fod wedi bod yn fwy heriol. Yn benodol, roedd yn cael ei gydnabod yn eang bod nifer o'r dangosyddion perfformiad allweddol a osodwyd, yn ymarferol, eisoes wedi cael eu cyflawni a bod angen eu hadolygu (i fyny) i adlewyrchu'r ddarpariaeth oedd ar gael.

Yn gyffredinol, ystyrid bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r TSIB yn adeiladol gan y rhanddeiliaid a gyfwelwyd. Cynhaliwyd cyfarfodydd cynnydd misol cyson a chynhyrchwyd adroddiadau chwarterol ffurfiol i swyddogion Llywodraeth Cymru.

4.4.3 Trefniadau Cyflawni Generig

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Prosiect Gweithredol yn ystod 2010, gyda'r aelodau wedi eu tynnu o blith staff mewnol, i oruchwylio cyflawni'r prosiect Undebau Credyd. Dadleuwyd bod ei sefydlu wedi digwydd fel ymdrech i ffurfioli'r prosesau rheoli a llunio penderfyniadau ac roedd yn cael ei amgyffred fel corff oedd yn gweithio'n effeithiol. Yn wir, credid bod nifer o'r gwersi cam un wedi cael eu trafod a'u mabwysiadu gan y Bwrdd Gweithredol gan gynnwys mabwysiadu cofrestr risg i'r prosiect.

Roedd y rhai sy'n gyfarwydd â threfniadau cyflawni'r prosiect yn ddiweddar hefyd o'r farn bod cyflwyno Cynllun Sefydlogi Llywodraeth Cymru (sydd wedi sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael ar gyfer yr undebau credyd oedd mewn trafferthion) yn ddatblygiad a groesawyd.

Ar lefel gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn meddwl bod costau gweinyddu'r prosiect yn uchel. Dadleuwyd bod hyn yn bennaf oherwydd bod tair haen o weinyddu (ar lefel yr undeb credyd, y darparwr ar gontract a Llywodraeth Cymru) yn ogystal â'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn ofynion adrodd eithaf beichus a osodwyd ar undebau credyd.

Yn ôl nifer o'r ymgylgoreion (sy'n cael ei gydnabod mewn rhai dogfennau allweddol hefyd⁸³) un o'r prif feini tramgwydd i'r prosiect oedd y diffyg parhad o ran staff yn Llywodraeth Cymru. Nododd yr ymgylgoreion bod trosiant cyson wedi bod yn y staff yn y tîm oedd yn goruchwyllo'r gefnogaeth i undebau credyd. Teimlai mwyafrif yr ymgylgoreion bod y diffyg parhad hwn wedi cyfrannu at rai o'r eitemau a drafodwyd yn gynharach (fel y diffyg cyswllt rhwng targedau'r prosiect a'r gweithgaredd ar y ddaear yn ogystal â'r newidiadau cyson ym mlaenoriaethau'r prosiect). Yn ôl rhai rhanddeiliaid, roedd y diffyg parhad, ac weithiau'r diffyg adnodd penodol, yn Llywodraeth Cymru, wedi bod yn anfodhaol - 'nid yn unig mae wedi cael effaith ar waith ehangach yr Uned Cynhwysiant Ariannol ond nid yw chwaith wedi darparu'r gefnogaeth sy'n ofynnol gan y prosiect, y corff sy'n cyflawni a'r undebau credyd.' ⁸⁴ Fodd bynnag, fe nododd rhanddeiliaid eraill, o ystyried y diffyg cydlynid ar draws y 'sector' undebau credyd yn gyffredinol yng Nghymru a'r ffaith nad oes corff ymbarél i gynrychioli undebau credyd, mae sianelu cefnogaeth iddynt, o reidrwydd, yn drwm o ran adnoddau.

Er gwaethaf bodolaeth brand undebau credyd yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru a gofyn i undebau credyd ei fabwysiadu, roedd yr ymgylgoreion yn feirniadol hefyd o absenoldeb unrhyw ymgyrch farchnata amlwg i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o undebau credyd hyd yn hyn - 'fe wnaethant sôn am frand cenedlaethol ond i ble mae hynny wedi mynd? Dwi ddim wedi ei weld'. Yn wir roedd teimlad cyffredinol mai dyma un o'r meysydd oedd wedi datblygu leiaf yn y prosiect hyd yn hyn ac fe fynegodd yr ymgylgoreion eu siom yn hyn o beth. Dadleuodd rhai ymgylgoreion bod y targed Cynllun Gweithredu Undebau Credyd gwreiddiol o gynyddu aelodaeth undebau credyd yng Nghymru i 6% erbyn 2020 wedi bod yn rhesymol ond bod rhaid i'r prosiect weithredu ar unwaith er mwyn bod â gobaith realistig o gyflawni hynny.

⁸³ Er enghraifft y Cynllun Busnes Cam Dau.

⁸⁴ Cynllun Busnes Prosiect Cam Dau WEFO

4.4.5 Adborth Undebau Credyd

O ran adborth gan undebau credyd ar waith Canolfan Cydweithredol Cymru, roedd yr ymatebwyr a holwyd yn ystyried y gefnogaeth yn rhesymol (gweler Ffig. 10) - y math o gefnogaeth a dderbyniwyd yn fwyaf cyffredin oedd hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr, yna cyngor ynglŷn â chytundebau ariannu Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol Llywodraeth Cymru, adolygiadau o gynlluniau busnes, cyngor marchnata a chynngor neu hyfforddiant ar gydraddoldeb. Ystyrid mai cryfder y gefnogaeth a dderbyniwyd oedd:

- Hygyrchedd y gwasanaeth: 'hawdd cysylltu â'r ganolfan' ac 'ar gael bob amser';
- Dealltwriaeth o'r sector - 'sut y mae undebau credyd yn gweithio' a gwybodaeth dda'r staff;
- Hyfforddiant rhad ac am ddim a pherthnasol ar gael oedd yn diwallu anghenion y sector - 'roedd y cyfleoedd hyfforddiant niferus yn arbennig o werthfawr'.


Gwnaed nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella ar y gefnogaeth a ddarparwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru - y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â darparu hyfforddiant ac yn cynnwys:

- Mwy o gyfleoedd hyfforddi hygyrch a lleol, yn cyd-fynd yn well â llwybrau cludiant cyhoeddus a'u hamseriad;
- Darpariaeth hyfforddiant fwy hyblyg e.e. dysgu o bell, adnoddau ar-lein ac yn ôl y gofyn gan undebau credyd;
- Hyfforddiant mwy arbenigol, gan gynnwys ymweliadau ag undebau credyd llwyddiannus yn Iwerddon neu'r Alban.

Roedd yr adborth gan yr undebau credyd a holwyd ar y gefnogaeth oedd ar gael gan TSIB yn gadarnhaol ar y cyfan (fel y gwelir yn Ffig. 10 isod) gydag ychydig mwy o'r ymatebwyr yn dweud bod y gefnogaeth wedi bod yn 'dda iawn' o'i gymharu â'r ymateb i Ganolfan Cydweithredol Cymru. Yn wir roedd pump o'r deg undeb credyd a holwyd yn meddwl bod eu profiad o TSIB wedi bod yn 'llawer gwell' na Chanolfan Cydweithredol Cymru, gyda chweched o'r

farn ei fod 'ychydig yn well'. O'r pedair arall - roedd un yn meddwl eu bod wedi bod yn debyg, un ychydig yn waeth, un lawer gwaeth ac nid oedd un yn gwybod. Roedd natur y gefnogaeth a ddefnyddiwyd yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd dan gam un, er bod nifer uwch o undebau credyd wedi nodi eu bod wedi derbyn cefnogaeth i weithredu eu cynllun busnes yn ogystal â chynghor yn ymwneud ag uno a rhannu gwasanaethau undebau credyd. Fodd bynnag rhaid i'r adborth hwn gael ei gymryd yng nghyd-destun y cytundebau gwahanol a luniwyd gan TSIB a Chanolfan Cydweithredol Cymru a'r ffaith bod peth rhwystredigaeth wedi bod ymhlith rhai undebau credyd o ganlyniad i'r bwlch yn y ddarpariaeth oedd ar gael iddynt ar ddiwedd y prosiect Amcan 1 a chyn cychwyn cam un.

Ffig. 10: Adborth Undebau Credyd ar y Ddarpariaeth gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a TSIB



Ffynhonnell: Arolwg o 10 Undeb Credyd

Nodwyd cryfderau'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan TSIB fel:

- Profiad a gwybodaeth gadarn o'r sector undebau credyd;
- Darpariaeth ragweithiol wedi ei hymchwilio'n dda: 'roedd yn ymarferol iawn' a 'maent yn ymddangos fel petaent wedi paratoi yn well na Chanolfan Cydweithredol Cymru';
- Cefnogaeth uniongyrchol wrth baratoi cynlluniau busnes a chynghor ar broblemau ymarferol undebau credyd.

Yn wir fe wnaeth un ymatebwr nodi yn benodol bod y gefnogaeth gan TSIB 'wedi ei chanolbwyntio yn well ac yn fwy strategol' ac o ganlyniad 'rydym yn fwy tebygol o gyrraedd cynaliadwyedd gyda chymorth TSIB na gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru'. Nododd ymatebwr arall bod cyfathrebu yn arbennig yn ymwneud â'r cytundebau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol wedi bod yn fwy aml a defnyddiol trwy TSIB.

Dim ond nifer fechan iawn o undebau credyd a awgrymodd welliannau i'r gefnogaeth oedd ar gael trwy TSIB, sef:

- Darpariaeth fwy 'lleol' i sicrhau cyswllt mwy cyson gyda'r undeb credyd;
- Mwy o gyfathrebu uniongyrchol a chyson fel cylchlythyrau;
- Hyfforddiant arbenigol ar agweddau fel cyfrifo a rheoli perfformiad;
- Gwelliannau i weinyddiaeth contractau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol a gostyngiad yn y dystiolaeth angenrheidiol i'w chyflwyno gyda phob hawliad cyllido.

Fe wnaeth dau ymatebwr o undebau credyd y sylw bod lefel yr hyfforddiant ar gael gan TSIB wedi bod yn is nag un Canolfan Cydweithredol Cymru.

Gofynnwyd i undebau credyd hefyd am eu profiadau o Gytundebau Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol Llywodraeth Cymru. Cafwyd yr ymateb canlynol ar geisiadau, perfformiad, monitro a gwariant y Cytundebau:

- Roedd hanner yr ymatebwyr (pum ymatebwr) wedi gweld y ffurflenni cais am gyllid Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol yn hawdd i'w llenwi a phedwar wedi eu cael yn anodd neu anodd iawn. Nid oedd un wedi cymryd rhan yn y broses ymgeisio;
- Roedd y mwyafrif (saith allan o ddeg ymatebwr) wedi canfod bod y broses llunio penderfyniadau naill ai'n dderbyniol neu gyflymach nag a ragwelwyd;
- Roedd tri o'r undebau credyd a holwyd yn meddwl eu bod o flaen y proffil ar eu targedau cytundeb Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol cyfredol, credai pedwar arall eu bod yn cadw at y proffil ac roedd tair yn meddwl eu bod ychydig tu ôl i'r proffil;

- Meddyliai dau o'r undebau credyd a holwyd y byddent yn cyflawni eu holl dargedau erbyn diwedd y cyfnod ariannu, tra roedd saith yn meddwl y byddent yn cyflawni'r rhan fwyaf ohonynt. Roedd un yn meddwl y byddai'n cyflawni rhai yn unig o'r targedau cyllido;
- Roedd y prif sialensiau a ragwelwyd gan yr undebau credyd a holwyd wrth gyflawni eu targedau yn cynnwys effaith amgylchiadau allanol, nas rhagwelwyd; medru codi proffil undebau credyd yn ddigonol a chyrraedd y targedau mwyaf anodd o gynyddu benthyciadau a niferoedd aelodau;
- Roedd mwyafrif yr undebau credyd a holwyd (saith o ymatebwyr) yn meddwl eu bod yn gwario yn ôl eu proffil, nododd un ei bod o flaen y proffil oherwydd costau cynyddol ac fe nododd un arall ei bod tu ôl i'r proffil - yn bennaf oherwydd eu bod yn hwyr yn dechrau gweithgareddau⁸⁵;
- Roedd yr undebau credyd a holwyd yn gyffredinol yn amgyffred y gofynion ariannol a monitro a osodwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru, ag a oedd yn aml yn cael eu gweinyddu gan naill ai Ganolfan Cydweithredol Cymru neu TSIB, yn feichus (roedd dau yn meddwl eu bod yn llawer rhy feichus a saith yn meddwl eu bod braidd yn feichus) gyda dim ond un o'r farn bod y gofynion yn iawn i bob pwrpas. Gwnaed nifer o awgrymiadau ar ffyrdd y gellid gwella'r gofynion ariannol a monitro, y rhai oedd yn cael eu nodi amlaf oedd:
 - Darparu cefnogaeth i gynorthwyo undebau credyd i weithredu gwelliannau mewnol er mwyn medru cynhyrchu data ac allbwn ar gyfer cronfeydd data;
 - Lleihad yng nghyfanswm y dystiolaeth sy'n ofynnol ac ychydig o symudiad yn y pwyslais o dystiolaeth ar bapur i dystiolaeth ar sail 'ymweliad'.

4.5 Y Berthynas rhwng Rhanddeiliaid Allweddol

Yn yr Adran hon rydym yn archwilio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, darparwyr ar gontract ag undebau credyd.

⁸⁵ Nid oedd un yn gwybod.

4.5.1 Y Berthynas rhwng Undebau Credyd

Yn bennaf fe gredid bod y berthynas rhwng undebau credyd yn amrywiol. Awgrymodd rhai o'r ymgynghoreion bod y berthynas rhwng undebau credyd Gogledd Cymru cyn iddynt gyfuno yn dda tra'r oedd y berthynas rhwng undebau credyd yn Ne Cymru yn wannach ('roedd mwy o densiynau a gwrthdaro personol ymhlith undebau credyd yn y de'), er bod amgyffrediad bod clwstwr bach o undebau credyd De Ddwyrain Cymru yn gweithio yn glos gyda'i gilydd. Credid bod y rhaniad de gogledd wedi cael ei gryfhau i raddau helaeth gan fodolaeth cymdeithas ar gyfer y ddau ranbarth. Roedd nifer fechan o'r ymgynghoreion o'r farn 'bod undebau credyd yn eithaf tiriogaethol' ac y gallai hyn gael ei waethygu gan gyflwyniad y Gorchymyn Diwygio sy'n galluogi undebau credyd i weithredu ar draws ardaloedd daearyddol ehangach.

Roedd yr adborth gan yr undebau credyd a holwyd yn cefnogi hyn i raddau helaeth - gyda chwech o'r deg a holwyd yn nodi bod y cyfathrebu rhwng undebau credyd naill ai yn dda neu yn dda iawn a thair yn nodi ei fod naill ai'n wael neu yn wael iawn⁸⁶. Roedd rhai o'r problemau a nodwyd gan ymatebwyr o undebau credyd yn cynnwys:

- Problemau o ran agwedd fel cyndynrwydd undebau credyd eraill i glywed a dilyn arfer da o'u sefydliad eu hunain 'maen nhw [undebau credyd eraill] i gyd yn eithriadol o lwythol yn eu hagwedd at rannu gwybodaeth neu sgiliau, rwyf wedi cynnig help i nifer o undebau credyd...ond neb wedi derbyn';
- Problemau hanesyddol neu amgylchiadau ehangach fel 'arwahanrwydd daearyddol, diffygion technoleg [a] dargyfeirio hanesyddol';
- Diffyg 'protocol swyddogol' ar gyfer cyfathrebu rhwng undebau credyd.

4.5.2 Y Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ag Undebau Credyd.

Roedd nifer o'r rhanddeiliaid yn meddwl bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ag undebau credyd wedi gwella dros amser. Roedd llond llaw o'r ymgynghoreion yn meddwl bod lefel y cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r

⁸⁶ Nid oedd un ymatebydd yn gwybod.

undebau credyd wedi bod yn eithaf gwan yn ystod cam un ond bod hyn wedi gwella yn ddiweddar oherwydd ymdrechion Llywodraeth Cymru i sefydlu deialog cyson gyda'r sector - yn arbennig trwy'r cynllun Sefydlogi. Awgrymwyd hefyd bod y berthynas wedi gwella wrth i'r pwyslais ar yr agenda cyfuno undebau credyd leihau, a thrwy hynny gael gwared ar beth o'r tensiynau gwreiddiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r undebau credyd.

Roedd wyth o'r undebau credyd a holwyd yn meddwl bod y cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r undebau credyd naill ai yn dda neu yn dda iawn a dau yn nodi eu bod naill ai'n wael neu yn wael iawn. Roedd y rhai mwyaf beirniadol o ansawdd ac amllder y cyfathrebu yn dadlau, ar wahân i'r Grŵp Cyswllt Undebau Credyd Cymru Gyfan nad oedd unrhyw gyfathrebu gwirioneddol wedi bod rhyngddynt â Llywodraeth Cymru. Awgrymwyd hefyd bod y cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru ag undebau credyd yn llai na chyson - 'mae rhai undebau credyd yn mwynhau cyfathrebu uniongyrchol ac aml gyda Llywodraeth Cymru, nid yw eraill'.

4.5.3 Y Berthynas rhwng Darparwyr ar Gontract ag Undebau Credyd

Roedd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru berthynas hirhoedlog gyda'r undebau credyd cyn cyflawni cam un a oedd yn cael ei hystyried, gan y rhan fwyaf o ymgynghoreion, yn un bositif ac a oedd yn golygu bod y corff yn medru cychwyn ar y gwaith yn fuan iawn. Fe wnaeth rhai o'r ymgynghoreion danlinellu'r ffaith bod y gostyngiad cymharol yn y ddarpariaeth ers y cyllid Amcan 1 trwy Ganolfan Cydweithredol Cymru yn golygu bod y sefydliad wedi gorfod rheoli disgwyliadau o'r tu mewn i'r sector. Dim ond un o'r ymgynghoreion wnaeth awgrymu bod tensiynau ar y ddaear yn ystod cam un, gan ychwanegu 'bod llawer o agweddau gwrthwynebus at Ganolfan Cydweithredol Cymru o du'r gymuned' ar y pryd.

Roedd yr ymgynghoreion a fedrai roi sylw ar y berthynas rhwng TSIB a'r undebau credyd yn meddwl bod y berthynas wedi gwella ar hyd y flwyddyn wrth i'r pryder cychwynnol am weithio gyda darparwr newydd (y credid ei fod wedi ei waethgu yn rhannol oherwydd diffyg presenoldeb TSIB yng

Nghymru) leihau. Teimlid bod y pryderon cychwynnol wedi cael eu lleddfu trwy benodi Rheolwr Prosiect gyda chefnidir cryf yn y sector yng Nghymru ac a oedd yn adnabyddus i nifer o'r undebau credyd.

Roedd pob un ond un o'r undebau credyd a holwyd yn meddwl bod y cyfathrebu rhwng TSIB a hwythau naill ai yn dda iawn neu'n dda.

4.6 Y Gwahaniaeth a Wnaed i Undebau Credyd Hyd yn Hyn

Mae'r adran hon yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd gan ddeg o undebau credyd a holwyd (sampl o 62.5% o'r 16 undeb credyd a gefnogir gan y prosiect) yn ogystal â dadansoddiad o ddata perfformiad ariannol a oedd ar gael i ni ar yr undebau credyd a gefnogwyd.

4.6.1 Barn yr Undebau Credyd

Roedd undebau credyd yn eithaf cadarnhaol am y newidiadau a welsant yn eu sefydliadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Nododd mwyafrif llethol yr undebau credyd a holwyd eu bod wedi gweld cynnydd yn eu hasedau yn ogystal â chynnydd yn nifer eu haelodau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd undebau credyd yn llai hyderus am nodi bod ymwybyddiaeth leol wedi cynyddu o'u sefydliad a bod eu cynaliadwyedd ariannol wedi gwella - gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod wedi profi 'rhai' newidiadau yn y meysydd hyn. Roedd undebau credyd hefyd yn llai tebygol o roi adroddiad bod newid yn y nifer o wirfoddolwyr ac yn y nifer o fannau casglu - er enghraifft, dim ond hanner yr undebau credyd a arolygwyd wnaeth nodi bod cynnydd yn nifer eu gwirfoddolwyr.

Gofynnwyd i undebau credyd a nododd bod newidiadau cadarnhaol yn yr agweddau hyn o'u gweithgareddau nodi pa gyfraniad, os o gwbl, yr oedd y Prosiect Undebau Credyd wedi ei wneud tuag at y newid. Roedd undebau credyd yn fwy tebygol o briodoli cyfraniad y prosiect at rai newidiadau (cynnydd yn nifer yr aelodau, cynnydd mewn asedau, gwell cynaliadwyedd ariannol a chynnydd mewn ymwybyddiaeth leol o undebau credyd) ac yn llai

tebygol o briodoli cyfraniad y prosiect tuag at y ddau fath olaf o newid (cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr a chynnydd yn nifer y mannau casglu). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod y prosiect yn canolbwyntio ei ddarpariaeth ar yr agweddau mwyaf heriol o berfformiad ariannol undebau credyd yn hytrach na rhai o'r targedau haws, sy'n iawn. Fodd bynnag mae dadansoddiad o ddata perfformiad ariannol (yn Adran 4.6.2) yn awgrymu rhywfaint o ddiffyg cyswllt rhwng amgyffrediad cadarnhaol rheolwyr undebau credyd o welliant ym mherfformiad undebau credyd â'r newidiadau gwirioneddol ym mherfformiad ariannol undebau credyd.

4.6.2 Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol

Fe sicrhawyd bod data ar gael ac fe ddadansoddwyd perfformiad undebau credyd o ran y mesurau PEARLS safonol.⁸⁷ Gan nad oedd data PEARLS ar gael ar gyfer 2009 a 2010 i undebau credyd amrywiol Gogledd Cymru nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad canlynol. Trafodir pob un o chwe mesur PEARLS yn yr adran hon. Mae'n werth nodi bod nifer o ffactorau yn effeithio ar berfformiad ariannol undebau credyd, ac mai dim ond un o'r ffactorau hynny yw'r cyfraniad a wneir gan y Prosiect Undebau Credyd.

Mae'r mesur cyntaf, Amddiffyniad, yn cael ei fesur gan gymhareb hyfywedd yr undeb credyd, h.y. y graddau y mae gan undeb credyd ddiogeliad ar gyfer cynilion ei haelodau petai'n cael ei dirwyn i ben. Safon PEARLS yw y dylai'r asedau net gyfateb i neu fod yn fwy na 111% o'r cynilion (cyfranddaliadau ac adneuon). Trwy ddadansoddi'r data gwelir bod:

- Pump o'r 14 undeb credyd wedi cyrraedd targed cymhareb hyfywedd PEARLS ym Mehefin 2011 (o'u cymharu â dau ym Medi 2010 a dim un ym Medi 2009);
- Fe wnaeth 10 o'r 14 undeb credyd gynyddu eu cymhareb hyfywedd rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011.

⁸⁷ Mae PEARLS yn golygu Protection (Amddiffyniad), Effective Financial Structure (Strwythur Ariannol Effeithiol), Asset Quality (Ansawdd Asedau), Rates of Return (Cyfraddau Enillion), Liquidity (Hyfywedd Ariannol), a Signs of Growth (Arwyddion o Dwf).

Yn ail, defnyddiwyd dau gyfrifiad i asesu Strwythurau Ariannol Effeithiol undebau credyd - Cymhareb Benthyciadau Net i Gyfanswm Asedau a Chyfalaf Sefydliad i Gyfanswm Asedau. Mae'r gymhareb benthyciadau net i gyfanswm asedau yn mesur canan yr holl asedau a fuddsoddwyd mewn rhoi benthyciadau. Mae benthyciadau i aelodau yn creu incwm i'r undeb credyd trwy'r llogau.⁸⁸ Y targed PEARLS yw am gymhareb benthyciadau i asedau o 70% i 80%. Mae dadansoddiad o'r data yn datgelu perfformiad gwael ar y mesur hwn yn gyffredinol. Yn benodol:

- Dim ond dau o'r 13⁸⁹ undeb credyd a gyrhaeddodd y targed o 70-80% ym Mehefin 2011 (canfyddiad oedd yn gyson i raddau helaeth ers Medi 2009);
- Yn gyffredinol fe wnaeth perfformiad undebau credyd wanhaus ar y mesur hwn rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011 (h.y. fe wnaeth 10 o'r 12 undeb credyd symud ymhellach oddi wrth y targed rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011).⁹⁰

Mae'r Cyfalaf Sefydliadol i Gyfanswm Asedau yn fesur o'r cyfalaf sefydliadol - neu gronfeydd wrth gefn statudol - a ddelir gan yr undeb credyd fel modd (eithaf) o dalu rhwymedigaethau. Roedd pump o'r 14 undeb credyd wedi cyrraedd targed PEARLS o 10% ym Mehefin 2011, o'u cymharu â dau allan o 14 ym Medi 2010 a dim un o'r 14 ym Medi 2009. Fodd bynnag fe wnaeth pump o'r rhai nad oedd yn cyrraedd y targed ym Mehefin 2011 wella ar y mesur hwn dros y cyfnod o Fedi 2010 i Fehefin 2011.

Yn drydydd, mae'r mesur Ansawdd Asedau yn cael ei gyfrifo fel darpariaeth dyledion drwg undeb credyd (cyfanswm cymhareb tramgwyddo i fenthyciadau). Mae hyn yn mesur y ganran o falansau benthyciadau sydd ar y llyfrau sy'n agored i ddiffygdlu a gorfod eu dileu. Y targed PEARLS yw na ddylai'r gymhareb tramgwyddo fod yn fwy na 5% ar fenthyciadau sydd ag ôl-ddyled o fis neu fwy. Ym Mehefin 2011 roedd pump o'r 14 undeb credyd wedi cyrraedd y targed hwn. Roedd gan ddau undeb credyd gymhareb o dros 20%.

⁸⁸ Os yw'r benthyciadau i asedau yn rhy uchel yna gall yr undeb credyd fod yn rhy agored i risg ar ad-dalu.

⁸⁹ Nid oedd data ar gael ar gyfer Undeb Credyd Merthyr ar gyfer Mehefin 2011.

⁹⁰ Fe wnaeth un undeb credyd (Casnewydd) aros yn yr ystod 70-80% ym Medi 2010 a Mehefin 2011.

Mewn wyth undeb credyd roedd eu sefyllfa wedi gwaethygu rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011; mewn pump roedd wedi gwella.⁹¹ Mae hyn yn fras yn adlewyrchu'r patrwm ar gyfer y tymor hirach rhwng Medi 2009 a Mehefin 2011 a dylid ei ystyried yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Yn bedwerydd, mae'r mesur Cyfradd Enillion yn cael ei gyfrifo fel cymhareb Costau Gweithredu i Gyfartaledd Asedau. Mesurir effeithlonrwydd gweithredol trwy gymharu treuliau gyda chyfartaledd asedau h.y. y gost sy'n gysylltiedig â rheoli asedau undeb credyd. Mae targed PEARLS ar 5% neu lai. Roedd data ar gael ar gyfer Medi 2010 ac mae'n dangos nad oedd yr un o'r undebau credyd wedi cyrraedd y targed hwn (yn wir roedd y ganran mewn pump o'r undebau credyd dros 20%). Mae hyn yn golygu bod y costau gweithredu ar gyfer yr undebau credyd yn awr yn rhy uchel, ac mae i hyn oblygiadau o ran y llogau y gall undebau credyd ei gynnig i gynilwyr.

Yn bumed, mae mesur Hyfywedd undebau credyd yn cael ei gymryd fel y gymhareb Symiau Taladwy yn y Tymor Byr i Gyfanswm Adneuon. Mae hyn yn mesur a yw undebau credyd yn dal digon o gronfeydd arian wrth gefn (h.y. i fodloni ceisiadau i dynnu cynilion allan a'r holl ymrwymadau talu am y 30 diwrnod nesaf). Targed cymhareb PEARLS yw i'r cronfeydd arian wrth gefn fod rhwng 15-20% o gyfanswm y cynilion ar adnau. Mae'r canfyddiadau yn dangos nad oes yr un o'r undebau credyd yn cyrraedd y targed hwn. Mae'r 14 yn dal llawer mwy o arian wrth gefn nag a ddymunir dan PEARLS (mae 10 o'r 14 undeb credyd yn dal mwy na 50% o'r holl adneuon ac mae 6 o'r 14 undeb credyd yn dal mwy na 70%). Ar un llaw mae hyn yn golygu bod yr holl undebau credyd mewn sefyllfa gref o ran hyfywedd tymor byr. Fodd bynnag, mae maint y cronfeydd wrth gefn yn awgrymu bod ganddynt agwedd or ofalus at fenthycu neu anawsterau wrth ddarparu benthyciadau, er y gall adneuon Cronfa Dwf y DWP hefyd esbonio'r cronfeydd wrth gefn sylweddol mewn rhai enghreifftiau. Mae'r ffaith bod y cronfeydd wrth gefn yn is fel canran o gynilion ym Medi 2009 yn awgrymu ei bod yn fwy tebygol mai'r cyntaf sy'n wir ac nid yr ail.

⁹¹ Nid oedd unrhyw newid yn sefyllfa un undeb credyd

Cyfrifir y chweched mesur PEARLS a'r olaf, Arwyddion o Dwf, fel Twf yng Nghyfanswm Asedau'r undeb credyd ac mae'r data yn awgrymu:

- Lefelau da o dwf yn sail asedau'r undebau credyd - roedd y 14 undeb credyd wedi cynyddu cyfanswm eu hasedau erbyn Mehefin 2011 o'u cymharu â Medi 2009 (cynnydd o 39%) a Medi 2010 (cynnydd o 19%);
- Roedd nifer yr oedolion oedd yn aelodau wedi cynyddu mewn wyth o'r 14 undeb credyd rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011 (11 o 15 o Fedi 2009 i Fehefin 2011);
- Roedd nifer yr aelodau iau wedi cynyddu mewn wyth o'r 14 undeb credyd rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011 (12 o 15 o Fedi 2009 i Fehefin 2011);
- Fe wnaeth 10 o'r 14 undeb credyd gynyddu eu portffolio benthyciadau rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011 (gyda chynnydd tebyg mewn 10 o'r 14 undeb credyd am y cyfnod Medi 2009 i Fehefin 2011).

4.7 Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd

Fe wnaeth yr adborth gan yr ymgylgoreion a'r undebau credyd danlinellu enghreifftiau o arfer da yn ogystal â gwersi adeiladol i'w dysgu. Rydym yn ystyried rhai o'r rhain dros y paragraffau nesaf.

Tynnodd nifer o'r ymgylgoreion ac ymatebwyr o undebau credyd sylw at waith ar y cyd ar draws undebau credyd fel enghraifft o arfer da. Roedd hyn yn cynnwys rhannu gwasanaethau yn ystod cam dau fel:

‘Rydym yn rhannu Swyddog Adfer Dyledion a Swyddog Cydgordio Ariannol gyda thair undeb credyd arall.’

Roedd hefyd yn cynnwys uno undebau credyd. Yn benodol, cyfeiriodd nifer o'r ymgylgoreion at gyfuno pum undeb credyd yng Ngogledd Cymru fel enghraifft o arfer da wrth i undebau credyd ddatblygu gweithdrefn fyddai'n gynaliadwy yn ariannol. Dadleuwyd bod yr uno wedi bod yn llwyddiannus gan ei fod wedi dwyn at ei gilydd undebau credyd yn gwasanaethu ardaloedd

daearyddol eang, gan gadw cysylltiadau lleol. Awgrymodd yr ymgynghoreion bod yr uno wedi helpu undebau credyd unigol, llai i oresgyn problemau yn ymwneud â'u lleoliad gwledig (undebau bychain yn gwasanaethu ardaloedd mawr yn ddaearyddol) gan y gallai'r sefydliad newydd gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau, gan gynnwys cyfrifon cyfredol y gellid eu defnyddio trwy fannau ATM.

Roedd ymgynghoreion eraill yn cyfeirio at y cynllun Sefydlogi a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru fel elfen arall o arfer da i'r prosiect yn ystod cam dau. Teimlid bod yr adnoddau ychwanegol (ar ffurf personél Llywodraeth Cymru) o werth i'r undebau credyd hynny oedd yn cael eu hystyried mewn trafferthion o ran ei fod wedi rhoi gallu ac arbenigedd ychwanegol i ymdrin â phroblemau penodol. Nododd un ymatebydd o undeb credyd yn arbennig eu bod wedi:

'derbyn cefnogaeth gan TSIB a chefnogaeth ychwanegol gan [enw swyddog yn] Llywodraeth Cymru dros y 5/6 mis diwethaf sydd wedi galluogi ein Hundeb Credyd i gryfhau a chynyddu'r Bwrdd. Mae'r ddau hefyd wedi cefnogi'r rheolwr mewn rolau amrywiol gan gynnwys adroddiadau'r bwrdd, cefnogi i lansio ein swyddfeydd newydd ac ati.'

Roedd rhai o'r ymgynghoreion yn meddwl y gellid cryfhau'r gefnogaeth hon eto petai lefel uwch o arbenigedd ar gael i'r undebau credyd hynny - yn arbennig o ran arbenigedd ar gyfrifo ariannol.

Cyfeiriodd undebau credyd hefyd at enghreifftiau eraill mwy penodol o arfer da er nad oedd yn glir a oedd y rhain yn ymwneud â cham un neu gam dau, gan gynnwys:

- gwell effeithlonrwydd gweithredol fel 'prosesu benthyciadau yn gyflym,' defnydd mwy effeithiol o dechnoleg, mwy o hygyrchedd (yn arbennig trwy fwy o fannau cyswllt, newidiadau i amseroedd agor) a lleihau costau (fel defnyddio mannau casglu gwahanol mewn siopau neu asiantau eraill);
- pwysigrwydd hyfforddi staff fel 'hyfforddwch eich swyddogion benthyciadau ac yna hyfforddwch nhw eto. A daliwch ati i'w hyfforddi!'

Fe wnaeth nifer o'r ymgynghoreion a rhai o'r undebau credyd danlinellu rhai o'r gweithgareddau hyrwyddo undebau credyd fel arfer da y gallai sefydliadau eraill ei ddefnyddio. Er enghraifft, roedd un undeb credyd wedd gweld manteision eu gweithgaredd hyrwyddo uniongyrchol ac yn awgrymu y dylai eraill ailadrodd hyn trwy ganolbwyntio mwy ar 'farchnata wyneb yn wyneb'. Pwysleisiodd un arall bwysigrwydd llunio perthynas strategol a gweithredol gyda sefydliadau allweddol fel darparwyr tai lleol, awdurdodau lleol, swyddfeydd post, Canolfannau Cyngor Ar Bopeth a gwasanaethau cynghori eraill oedd wedi 'bod yn fuddiol wrth godi proffil ac ymwybyddiaeth yr undeb credyd' iddynt hwy. Aeth un o'r ymgynghoreion ymlaen i bwysleisio'r angen i undebau credyd godi eu proffil ymhlith cyflogwyr yn y sector cyhoeddus gyda golwg ar annog gweithwyr sector cyhoeddus i gynilo gydag undebau credyd. Yn wir, amlinellir hyn mewn ymrwymiad yn Rhaglen y Llywodraeth ar hyn o bryd. Roedd cynlluniau didynnu o'r gyflogres, gan gynnwys cynllun didynnu o gyflogres Llywodraeth Cymru, yn cael eu hystyried yn arfer da gan nifer o'r rhanddeiliaid. Yn unol â hyn, nododd ymgynghorai arall bod achos clir dros weld undebau credyd yn codi ymwybyddiaeth ymhlith awdurdodau lleol a chyrff y GIG er mwyn gwella'r broses gyfeirio rhwng asiantaethau cefnogi eraill ag undebau credyd.

Dadleuwyd bod llawer o wersi wedi eu dysgu o'r profiad o dderbyn buddsoddiad cyfalaf a referniw yn ystod cam un. Yn benodol fe wnaeth yr ymgynghoreion awgrymu y dylai unrhyw fuddsoddiad cyllid yn y dyfodol:

- bod ar gael i undebau credyd ar sail llawer mwy strategol ac ar gyfer datblygiadau a phrosiectau penodol (e.e. i ymestyn ystod cynnyrch undebau credyd gan gynnwys cardiau talu ymlaen llaw);
- bod ar gael ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag allbynnau cymharol h.y. cynyddu lefelau aelodaeth a chynyddu nifer yr unigolion wedi eu hallgau yn ariannol a gefnogwyd;
- cael eu dyfarnu gan ddilyn proses ddiwydrwydd dyladwy drylwyr (sy'n fwy perthnasol i fuddsoddiad cyfalaf);

- cael eu tynnu oddi ar Undebau Credyd trwy broses raddol yn hytrach na'u tynnu'n ôl yn sydyn ac yn gyfan gwbl.

4.8 Syniadau Undebau Credyd am y Dyfodol

Roedd yr arolwg ar y we o reolwyr undebau credyd yn eu holi am eu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, y sialensiau tebygol a'u gofynion tebygol o ran cefnogaeth.

Yr amcanion oedd yn cael eu hystyried yn bwysig i undebau credyd⁹² dros y flwyddyn nesaf oedd:

- Gwella cynaliadwyedd tymor hir y sefydliad - a ddynodwyd ymhlith y ddwy flaenoriaeth uchaf i wyth o'r deg undeb credyd a holwyd;
- Gwella perfformiad ariannol y sefydliad - a ddynodwyd ymhlith y tair blaenoriaeth uchaf i chwech o'r deg undeb credyd a holwyd;
- Gwella proffil y sefydliad - a ddynodwyd ymhlith y tair blaenoriaeth uchaf i bump o'r deg undeb credyd a holwyd;
- Gwella llywodraethu a rheolaeth y sefydliad - a ddynodwyd eto ymhlith y tair blaenoriaeth uchaf i bump o'r deg undeb credyd a holwyd;

Y prif sialensiau sy'n wynebu'r undebau credyd a holwyd dros y flwyddyn nesaf⁹³ neu fwy oedd:

- Cyfyngiadau ac ansicrwydd o ran cyllido (a nodwyd gan naw o'r deg undeb credyd a holwyd);
- Materion yn ymwneud â safleoedd (a nodwyd gan chwe undeb credyd);
- Materion yn ymwneud â llywodraethu (a nodwyd gan dri undeb credyd);
- Anawsterau wrth hyrwyddo undebau credyd (a nodwyd gan dri undeb credyd).

O ran y gefnogaeth oedd yn ofynnol dros y flwyddyn nesaf i ymdrin â'r sialensiau hyn roedd undebau credyd yn dueddol o bwysleisio dau brif angen.

⁹² Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r tri amcan pwysicaf.

⁹³ Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r tair her bwysicaf.

Y cyntaf oedd yr angen i gael cefnogaeth ariannol barhaus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid cyfalaf - 'mae arnom angen i grantiau cyfalaf fod ar gael' ac i ariannu gweithgaredd penodol 'mae arnom angen cyllid ar gyfer y prosiect arloesol yr ydym yn gobeithio ei gyflwyno.' Yr ail oedd yr angen am gefnogaeth marchnata i gyflawni ymgyrch trwy Gymru ac roedd y sylwadau a wnaed gan un ymatebwr yn cyfleu barn nifer:

'Gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo undebau credyd yn genedlaethol trwy ymdrech gref i farchnata'r mudiad undebau credyd trwy Gymru gyfan. Ni all undebau credyd gystadlu gyda chyllidebau marchnata'r rhai sy'n cystadlu â nhw sy'n targedu'r rhai sydd wedi eu hallgau yn ariannol, fel Provident, darparwyr benthyciadau hyd ddiwrnod cyflog, Moneyline Cymru⁹⁴ ac ati ac mae'n amlwg bod angen parhau i wella ymwybyddiaeth o'r hyn y gall undebau credyd ei gynnig i unrhyw un yn y gymuned. Tra bydd gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid a gwaith cymunedol yn medru cynorthwyo yn hyn o beth, fe fyddai ymgyrch farchnata genedlaethol gref yn sicr yn cynorthwyo undebau credyd yn fawr i gyrraedd pob rhan o'r gymuned'.

Yn olaf, fe nododd undebau credyd eraill ofynion penodol iawn fel 'byrhau'r oedi rhwng didyniadau cyflogres yr awdurdodau lleol a'r GIG'.

⁹⁴ Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol yw Moneyline Cymru a ddatblygwyd gan gymdeithasau tai yng Nghymru i ddarparu benthyciadau fforddiadwy, cyfrifol mewn model busnes.

5. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Yn yr adran hon rydym yn amlinellu ein casgliadau cyffredinol a chyfres o bump o argymhellion cychwynnol ar gyfer gweddill y cyfnod cyflawni cam dau.

Mae'r cyd-destun polisi yng Nghymru yn gefnogol iawn i'r mudiad undebau credyd er bod y disgwyliadau ar gyfer y sector, fe ellid dadlau, yn rhy uchel ac eang. Er bod y Prosiect Undebau Credyd wedi ei wreiddio yn dda ac yn cyd-fynd â pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru, fe fu tuedd i ddisgwyl i undebau credyd gynnig atebion ar gyfer ystod o amcanion polisi gydag adnoddau prin i wneud hynny, ar draul datblygu undebau credyd cynaliadwy sy'n perfformio'n gryf, o bosibl.

Rydym yn casglu bod angen cryf a rhesymeg bolisi gref dros ymyrraeth y sector cyhoeddus i gefnogi a datblygu'r mudiad undebau credyd yng Nghymru ar gychwyn cam un a bod y problemau a'r sialensiau oedd yn wynebu'r sector wedi eu hymchwilio yn dda a'u deall yn eang gan y rhai oedd yn cefnogi'r sector.

Rydym hefyd yn casglu, yng nghyd-destun y ffocws polisi parhaus ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, bod y rhesymeg dros ymyrraeth y sector cyhoeddus yn parhau yn gryf gyda chyfleoedd clir ar gyfer rhagor o welliannau ym mherfformiad ariannol undebau credyd yng Nghymru. Mae'r amodau ariannol ac economaidd ansicr hefyd yn golygu bod undebau credyd yn debygol iawn o fod angen cefnogaeth barhaus ac uniongyrchol er mwyn medru goresgyn sialensiau sylweddol a manteisio ar gyfleoedd newydd. Mae dadl gref iawn hefyd dros ganolbwyntio'r gefnogaeth yn y dyfodol ar yr undebau credyd hynny sy'n dangos yr uchelgais a'r gallu i dyfu.

Er bod y prosiect Undebau Credyd wedi gwreiddio yn dda mewn cyd-destun polisi cefnogol, fe osodwyd gormod o flaenoriaethau ar ei gyfer ef a'r sector datblygu ehangach yn y dechrau (gan gynnwys blaenoriaethau a ddynodwyd trwy'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd, y Strategaeth Cynhwysiant

Ariannol a Chynllun Busnes WEFO). Y canlyniad yw ei fod wedi bod yn heriol iawn cyflawni ar gyfer yr holl flaenoriaethau hyn yn ystod cyfnod cam un gan gadw at yr adnoddau oedd ar gael. Yn ychwanegol, mae'n glir bod y diffyg cyswllt rhwng amcanion a thargedau'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd a rhai'r Cynllun Busnes WEFO (sy'n canolbwyntio yn unig ar unigolion sydd wedi eu hallgau yn ariannol) wedi arwain at broblemau cyflawni sylweddol ac mae wedi creu anawsterau ychwanegol wrth fesur llwyddiannau'r prosiect cam un.

O ran strwythur cyflawni'r prosiect, roedd penodiad contractwr cyflawni arbenigol i gefnogi datblygiad y sector yng Nghymru yn addas. Mae'r ddadl dros is-gontractio gwaith gweinyddol Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol yn wannach, fodd bynnag, ac er gwaethaf adborth positif ar y gwaith a wnaed gan y contractwr cyflawni presennol, rydym yn awgrymu ailymweld â'r model yn y dyfodol er mwyn lleihau'r costau gweinyddol a chynyddu effeithlonrwydd yn gysylltiedig â'r elfen hon.

Mae argaeledd cyllid cyfalaf a refeniw i'r sector wedi bod yn addas ond, rydym yn dod i'r casgliad bod rhai o'r peirianweithiau a ddefnyddiwyd i ddyrannu cyllid wedi bod yn ddiffygiol. Rydym o'r farn y dylai arian cyfalaf fod wedi cael ei fuddsoddi mewn modd mwy strategol i sicrhau bod pob buddsoddiad a wnaed yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol ar gyfer y diben o drawsnewid undebau credyd yn gyrrff hunan gynhaliol. Yn yr un modd fe fedrai darparu cyllid refeniw fod wedi bod ar gael i undebau credyd ar gyfer cyflawni canlyniadau llawer mwy CAMPUS a fyddai'n llawer nes at dargedau Cynllun Busnes WEFO.

Mae'n gadarnhaol iawn bod y cytundebau cyllido Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol presennol wedi cael eu symleiddio ac yn cyd-fynd yn well â thargedau Cynllun Busnes WEFO (h.y. un targed wedi ei ganolbwyntio ar unigolion sydd wedi eu hallgau yn ariannol). Fodd bynnag, byddai'n fanteisiol cadw nifer fechan iawn (un neu ddau ar y mwyaf) o dargedau eraill cyson a fyddai yn cynorthwyo wrth asesu a mesur cynnydd undebau credyd

unigol tuag at fod yn hunan gynhaliol. Byddai hyn, yn ein barn ni, yn helpu i leihau'r tensiynau sydd ymhlyg rhwng yr angen am hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd ar un llaw ac allgau ariannol ac amcanion polisi cyfiawnder cymdeithasol ar y llall. Byddai hyn hefyd yn helpu i gysylltu amcanion y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd â Chynllun Busnes y prosiect. Un dewis efallai fyddai cyflwyno targedau ffurfiol i undebau credyd ar hyd y llinellau o 'aelodau newydd a recriwtiwyd' ac 'unigolion wedi eu hallgau yn ariannol fel cyfran o'r aelodaeth gyffredinol' i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y cleientiaid wedi eu hallgau yn ariannol yn unol â chynnydd yn yr aelodaeth yn gyffredinol.

Mae adroddiadau cam un yn awgrymu na wnaeth y prosiect gyrraedd y rhan fwyaf o'i dargedau cyllido WEFO er bod rhai cwestiynau wedi eu codi am ddibynadwyedd y data a gofnodwyd a'r diffyg tystiolaeth ar gael i ddilysu allbynnau. Fe wnaethom ganfod bod data'r undebau credyd yn dangos canlyniadau cymharol wan o ran perfformiad undebau credyd o'i gymharu â'u targedau. Roedd y diffyg cysondeb rhwng y targedau ar lefel y prosiect a thargedau undebau credyd unigol yn broblem sylfaenol yn ystod y cyfnod hwn, a phetai'r rhain yn fwy cyson ar y dechrau, mae'n debygol y byddai'r prosiect wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth gyflawni ei amcanion. Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael i awgrymu bod y gefnogaeth cam un oedd ar gael trwy'r contractwr yn torri tir newydd o ran ei ddarpariaeth i undebau credyd (gan fod y prif ffocws wedi bod ar weinyddu cytundebau cyllido Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol), er bod yr adborth ar yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru yn dda.

Mae'r perfformiad hyd yn hyn yn ystod cam dau'r prosiect (fel y mae'n cael ei fesur o'i gymharu â thargedau cyllido WEFO) yn ymddangos yn dderbyniol ac mae'r penderfyniad diweddar i wella cysondeb targedau undebau credyd â thargedau cyllido WEFO, yn ein barn ni, yn symudiad cadarn a rhesymol. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na all targedau WEFO yn awr gael eu cyflawni dros oes y prosiect - yn arbennig gan y bydd allbynnau undebau credyd yn bwydo yn uniongyrchol i broses adrodd WEFO. Fodd bynnag, er

bod natur cefnogaeth y prosiect i undebau credyd yn ystod cam dau wedi ei anelu at gefnogi hunan gynaliadwyedd mae rhai cwestiynau sylfaenol o ran a fydd disgwyl i'r prosiect gyflawni'r pum targed tymor hirach, arweiniol a nodir yn y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd ac i ba raddau. Daw hyn yn amlwg iawn trwy'r diffyg blaenoriaeth i'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus a'r broses recriwtio gwirfoddolwyr sydd efallai yn adlewyrchu'r cyfyngiadau a osodir ar wariant gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach ar weithgareddau o'r fath ar hyn o bryd.

Dengys y dystiolaeth bod undebau credyd a gefnogwyd gan y prosiect wedi gwneud peth cynnydd cadarnhaol hyd yn hyn mewn nifer o feysydd allweddol ac roedd undebau credyd yn medru tadogi peth o'r cynnydd hwn yn uniongyrchol ar y prosiect. Wrth edrych ar ddata ariannol PEARLS yn arbennig mae'n amlwg bod gwelliannau wedi eu gwneud o ran twf mewn aelodaeth, cymarebau hyfywedd ariannol a mesuriadau cyfalaf sefydliadol i gyfanswm asedau dros gyfnod y prosiect. Mewn cyferbyniad, mae'n ymddangos bod llai o gynnydd wedi ei wneud o ran gwella cymarebau benthychiadau net i gyfanswm asedau, darpariaeth dyledion drwg, cymhareb treuliau gweithredu i asedau ar gyfartaledd a chymhareb hyfywedd ariannol. Mae pob rheswm i ddisgwyl bod rhagor o gynnydd a gwelliannau i undebau credyd yng Nghymru yn bosiblwydd cyn belled a bod cefnogaeth addas yn parhau.

Mae'r berthynas rhwng y chwaraewyr amrywiol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, asiantau cyflawni ac undebau credyd) wedi gwella dros amser ac ni ddynodwyd unrhyw broblemau cyfathrebu gwirioneddol heblaw bod y berthynas yn wannach yma ac acw ymhlith yr undebau credyd eu hunain ac mae angen ymdrin â hynny wrth symud ymlaen.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a WEFO yn parhau i ariannu'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell y dylid mabwysiadu a chytuno ar nifer llai o flaenoriaethau allweddol yn canolbwyntio ar dargedau Cynllun Busnes WEFO a dangosyddion cynaliadwyedd undebau credyd (fel y'u cyflwynir gan PEARLS) fel y canolbwynt ar gyfer gweddill y cyfnod cam dau.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell y dylai buddsoddiad cyfalaf, os yn bosibl, a refeniw fod ar gael i undebau credyd yng Nghymru trwy'r prosiect. Fodd bynnag, rhaid i Llywodraeth Cymru ailymweld â'r peirianwaith ar gyfer dyfarnu cyllid o'r fath ac yn arbennig sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer y diben o gyflawni allbwn mwy CAMPUS.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod y trefniadau cyflawni presennol yn cael eu parhau, ac fel rhan o'r cynllun Sefydlogi diweddar fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddarparu mwy o arbenigedd arbenigwyr i'r sector mewn meysydd fel cyfrifeg a rheolaeth ariannol. Rydym yn argymell ymhellach y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r dewis o weinyddu cytundebau cyllido undebau credyd Gwasanaet h o Fudd Economaidd Cyffredinol yn uniongyrchol i symleiddio a lleihau costau gweinyddu'r prosiect.

Argymhelliad 5: O ran datblygu perthynas dylid rhoi mwy o bwyslais ar wella cyfathrebu rhwng undebau credyd, gyda golwg ar hyrwyddo arfer da ac archwilio cyfleoedd i rannu adnoddau/gwasanaethau.

Atodiad 1: Rhestr o'r Rhai a Gyfwelwyd

Enw	Sefydliad
Sheila Adams	Canolfan Cydweithredol Cymru
Stephen Chamberlain	Llywodraeth Cymru
Teej Dew	Canolfan Cydweithredol Cymru
Nigel Draper	Moneyline Cymru
Chris Gittins	Cymunedau yn Gyntaf, Llywodraeth Cymru
Barbara Hann	ACE Credit Union Services
Steve Hay	Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon, Safonau Masnach
Bill Hudson	TSIB
Lindsey Kearton	Llais Defnyddwyr Cymru
Delyth Morgan	Cyngor ar Bopeth Cymru
Jo Oak	Canolfan Cydweithredol Cymru
Lynne Schofield	Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru
Molly Scott	UWIC
Abbie Shelton	ABCUL
Lindsay Watt	DWP
Claire Williams	Moneyline Cymru